

# Canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Rhan 1 - Cynllunio ar gyfer cyflenwi  
gweithgarwch cofrestru etholiadol

**Mehfin 2019**



**SAA**

*Scottish Assessors Association*

# Diweddariadau i'r ddogfen

<b>Diweddarwyd</b>	<b>Disgrifiad o'r newid</b>
Mehfin 2013	Cyhoeddwyd yn wreiddiol
Mai 2015	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2015 a'r cyfnod cyn pleidleisiau Mai 2016
Tachwedd 2015	Adolygwyd i ddangos dod a diwedd y cyfnod pontio ymlaen i fis Rhagfyr 2015
Gorffennaf 2016	Diweddarwyd ar gyfer canfas 2016; i dynnu cyfeiriadau at etholwyr nad ydynt wedi eu cofrestru'n unigol; i ddangos y safonau perfformiad newydd; ac i ddangos Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2016
Mehfin 2017	Diweddarwyd i'w gwneud yn berthnasol ar gyfer canfas 2017; er mwyn adlewyrchu Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2017 ac er mwyn ychwanegu dolenni i enghreifftiau o arfer da yn y broses gofrestru etholiadol;
Mawrth 2018	Diweddarwyd i: <ul style="list-style-type: none"><li>• rhoi sylw i Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE (yn weithredol o 25 Mai 2018) a'r Mesur Diogelu Data</li><li>• gwneud yn berthnasol i ganfas 2018</li><li>• diwedaru'r rhestr o ddeddfwriaeth a nodir ym mharagraff 1.8</li></ul>
Mai 2019	Diweddarwyd i'w gwneud yn berthnasol ar gyfer canfas 2019

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Ynglŷn â'r canllawiau hyn.....</b>	<b>1</b>
	Safonau perfformiad .....	2
	Y fframwaith deddfwriaethol .....	3
<b>2</b>	<b>Cadw eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd dan adolygiad.....</b>	<b>5</b>
	Pam fod cael strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn bwysig.....	5
	Beth yw ymgysylltu â'r cyhoedd? .....	6
	Cefnogaeth gan y Comisiwn gydag ymgysylltu â'r cyhoedd .....	6
	Adolygu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd .....	7
	Cam 1: Mireinio proffil eich ardal gofrestru .....	9
	Cam 2: Gwirio'r gynulleidfa ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.....	11
	Cam 3: Adolygu'r sianelau ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr .....	13
	3a: Cyswllt uniongyrchol gyda phreswylwyr.....	13
	3b: Gweithio gyda phartneriaid i gyrraedd cynulleidfaoedd targed .....	17
	3c: Codi ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio hysbysebu a'r cyfryngau.....	22
	Cam 4: Parhau i nodi a mireinio tactegau i gyrraedd eich cynulleidfa darged leol.....	28
	Cam 5: Monitro a gwerthuso parhaus .....	32
<b>3</b>	<b>Eich cynllun cofrestru a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd.....</b>	<b>35</b>
	Pam bod cael cynllun cofrestru yn bwysig .....	35
	Beth ddylai eich cynllun gweithredu ei gynnwys? .....	37

# 1 Ynglŷn â'r canllawiau hyn

1.1 Dyma ran gyntaf y canllawiau cynhwysfawr a gynhyrchwyd i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth iddynt baratoi ar gyfer a chyflenwi gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda.

1.2 Datblygwyd y canllawiau drwy ymgynghori'n agos ag aelodau o Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA) Bwrdd Cydweithredu a Chynghori Etholiadol y DU (ECAB) a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda (ERRWG). Mae'n adlewyrchu rhwymedigaethau cyfreithiol y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r hyn yr ydym ni, SOLACE, yr AEA, yr SAA, yr ECAB ac ERRWG yn credu y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddisgwyl o'u staff wrth gynllunio ar gyfer a darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda.

1.3 Yr allwedd parhaus i gynnal cofrestr etholiadol gywir a chyflawn yw strategaeth ymgysylltu a chynllun cofrestru lleol da, a ddyluniwyd i gefnogi gweithgareddau lleol wedi'u targedu; gwaith partneriaeth effeithiol ar draws a thu hwnt i'r awdurdod lleol; a ffocws parhaus ar gynnydd a chanlyniadau fel y gellir gwneud addasiadau os oes angen. Bydd ein canllawiau, offerynnau a thempledi, ynghyd â'r gefnogaeth a ddarperir gan ein timau ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, yn eich cynorthwyo i ymgysylltu â phreswylwyr, gan gynnwys annog pobl i gofrestru. Mae'r offerynnau a thempledi rydym a gynhyrchwyd gennym yn cael eu hamlygu mewn blychau penodol yn y canllawiau. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydym wedi cyhoeddi'r offerynnau a'r templedi canlynol:

- [templed strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd](#)
- [templed cynllun gweithredu](#)
- [templed cofrestr risg a materion](#)
- [enghraifft o dactegau ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed](#)
- [rhestr wirio datblygu a rheoli contractau](#)
- [taflen ffeithiau ar gynhyrchu cyfathrebiadau hygyrch](#)

1.4 Rydym hefyd wedi cyhoeddi [adnoddau ymgysylltu â'r cyhoedd](#) sydd i gyd ar gael [ar ein gwefan](#).



Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r AEA a'r SAA er mwyn nodi enghreifftiau o arfer da yn y broses gofrestru etholiadol. Mae'r adnoddau canlynol wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac maent wedi'u hamlygu mewn blychau penodol yn y canllawiau.

- [Defnyddio llechi yn y broses gofrestru etholiadol](#)
- [Cyfathrebu](#)

- [Cyrraedd trigolion cartrefi gofal](#)

- [Canfasio personol effeithiol](#)
- [Annog ymatebion](#)
- [Cyrraedd myfyrwyr](#)
- [Defnydd effeithiol o ddata sydd ar gael](#)
- [Rheoli prosesau cofrestru yn effeithiol](#)

Mae ei [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a'r Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â diogelu data.

1.5 Rydym yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu llywodraeth leol yn gyffredinol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau yn benodol yn yr amgylchedd ariannol presennol. Fel enghraifft o hyn, bwriedir i'r offerynnau a thempledi cefnogol rydym yn eu darparu ei gwneud yn haws i chi gyflenwi cofrestru etholiadol yn lleol, ac osgoi'r angen i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gynhyrchu eu hadnoddau eu hunain i'r un diben. Wrth ddatblygu ein canllawiau ac adnoddau, yr ydym wedi ceisio cydnabod bod gwahanol heriau yn wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru a'i bod yn bosibl fod gwahanol ddulliau y gellid eu defnyddio i ymdrin â'r heriau hynny.



Am unrhyw gwestiynau yn ymwneud â chyllid ar gyfer cyflwyno IER, cysylltwch â Swyddfa'r Cabinet: [ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk](mailto:ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk)

## Safonau perfformiad

1.6 Yn 2016 cyhoeddasom [fframwaith safonau perfformiad](#) a gynlluniwyd i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer a chyflwyno gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Buom yn ymgynghori'n eang â'r gymuned etholiadol er mwyn hysbysu datblygiad y fframwaith a chafodd ei gadarnhau gan Fwrdd Cydweithredu a Chynghori Etholiadol y DU. Byddwch chi'n gweld cyfeiriadau i'r fframwaith safonau drwyddi draw yn y canllawiau hyn. Amcan cyffredinol y fframwaith safonau perfformiad yw cefnogi EROs i gynllunio a chyflawni gwasanaethau cofrestru etholiadol sy'n cael eu rhedeg yn dda. Datblygwyd y fframwaith o amgylch canlyniadu allweddol o bersbectif sicrhau bod pob person

cymwys yn gallu cymryd rhan yn y broses etholiadol, pe baent yn dymuno, a chyflawni cofrestrau etholiadol sydd mor gywir (gan gynnwys sicrhau dim cofnodion twyllodrus ar y gofrestru etholiadol) a chyflawn â phosibl.

## Y fframwaith deddfwriaethol

1.7 Mae'r canllawiau wedi eu cynhyrchu yn seiliedig ar y gofynion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd), a dylid eu darllen yn unol â hynny:

- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985
- Deddf yr Alban 1998
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (Atodlen 4)
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2001 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Etholfraint Dinasyddion Perthnasol yr Undeb) 2001
- Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002
- Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Deddf Gwasanaethau Gweinyddu Etholiadau a Chofrestru Lleol (Yr Alban) 2006
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol mewn Etholiadau Llywodraeth Leol) (Yr Alban) 2007
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
- Gorchymyn Senedd yr Alban (etholiadau ayb) 2010
- Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol Leol (Yr Alban) 2011
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013
- Gorchymyn Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol (Darpariaethau Trosiannol) 2013
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio a Disgrifiad o'r Cofrestrau Etholiadol) 2013
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio a Disgrifiad o'r Cofrestrau Etholiadol) 2013
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Penodi Dirprwyon) 2013
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2014 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio Rhif 2) 2014
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2014 (Diwygio) a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio Rhif 2) 2014
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyflenwi Gwybodaeth) 2014
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2015
- Gorchymyn Deddf Cofrestru a Gweinyddiaeth Etholiadol 2013 (Darpariaethau Trosiannol) 2015

- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2015 a Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) (Rhif 2) 2015.
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) (Diwygio) 2017
- Y Deddf Amddiffyn Data 2018 <sup>1</sup>
- Rheoliad Amddiffyn Data Cyffredinol yr UE (GDPR) 2018
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2018 a Rheoliadau Diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl (yr Alban) 2018

1.8 Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i chi hefyd ystyried dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus sydd wedi'i chynnwys yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth gyflawni eich dyletswyddau. Mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru hefyd ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu yn yr iaith Gymraeg. Pryd bynnag fydd unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth, byddwn yn darparu canllawiau a chefnogaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac yn diweddarau'r rhannau perthnasol o'r canllawiau fel bo'n briodol.

## 2 Cadw eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd dan adolygiad

### Pam fod cael strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn bwysig

2.1 Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol mae gennych ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cyfranogiad yn y broses etholiadol yn eich ardal chi. Mae maxsimeiddio nifer y pleidleiswyr cofrestredig yn dibynnu ar strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd lleol effeithiol gyda phrosesau cadarn y tu ôl iddi.

2.2 Mae'r her o facsimeiddio cofrestru yn digwydd yng nghyd-destun heriau ehangach cofrestru etholiadol, gan gynnwys ymddieithrio pleidleiswyr, poblogaethau symudol a heriau cofrestru eraill sy'n bodoli yn eich ardal chi. Dylai'r gwersi a ddysgwyd gennych wrth ymdrin â'r heriau hyn hyd yn hyn gael eu hadlewyrchu yn eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i diweddarau.

2.3 Bydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd effeithiol yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar weithgarwch dilynol, sydd â'r potensial i leihau'r adnoddau y byddwch eu hangen ar gyfer gwaith dilynol.

2.4 Mae ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn cynnwys mewnbwn o bob rhan o'r awdurdod lleol. Bydd angen i chi gynnal y berthynas gyda thimau eraill gan gynnwys TG, cyfathrebu a gweithwyr proffesiynol ymgysylltu (os oes rhai ar gael) a thimau eraill yn yr awdurdod lleol sydd â chysylltiad â'r preswylwyr hynny sy'n llai tebygol o fod wedi eu cofrestru. Bydd angen i chi hefyd weithio gyda phartneriaid allanol fel y nodir isod.



I gyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi ddatblygu darlun clir o'r heriau yn eich ardal chi a strategaeth i ymateb i'r heriau hyn, ac ymgorffori hyn i'ch cynllun cofrestru. Dylai eich strategaeth gynnwys:

- dadansoddiad lefel ward o'r ardal
- ardaloedd blaenoriaeth i dargedu gweithgarwch cofrestru
- sut fyddwch chi'n defnyddio'r sianeli sydd ar gael i gyrraedd y grwpiau a nodir ac etholwyr presennol, gan gynnwys llwybrau cyswllt uniongyrchol, partneriaid lleol, cyfryngau a hysbysebu



## Beth yw ymgysylltu â'r cyhoedd?

2.5 Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys:

- Unrhyw ffurflenni, llythyrau neu e-byst y byddwch yn eu hanfon yn uniongyrchol at unigolion neu aelwydydd.
- Galwadau ffôn, e-byst, a sgysiau wyneb-yn-wyneb uniongyrchol gyda chanfaswyr
- Gweithgarwch lleol gyda sefydliadau partner a fydd yn lledaenu'r neges ar eich rhan
- Cyswllt gyda sefydliadau megis ysgolion, prifysgolion, landlordiaid, cymdeithasau tai a hosteli
- Datganiadau i'r wasg a gwaith cyfryngau
- Gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan gynnwys hysbysebu a chyhoedduswydd lleol wedi'u hanelu'n uniongyrchol at breswylwyr

## Cefnogaeth gan y Comisiwn gydag ymgysylltu â'r cyhoedd

2.6 Mae'r canllawiau hyn yn nodi dulliau ar gyfer nodi heriau lleol a'r tactegau sydd ar gael i chi gyrraedd preswylwyr yn eich ardal chi. Dylech gofnodi pa ddulliau a thactegau y byddwch yn eu defnyddio.

2.7 Dylai'r rhain adeiladu ar eich profiadau yn gweinyddu'r canfas diwethaf ac yn ystod etholiadau a drefnwyd, ac mewn perthynas â'ch gweithgarwch parhaus i facsimeiddio cofrestru.

### Adnoddau

2.8 Bydd y Comisiwn yn darparu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi eich gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd, sydd ar gael ar ein [gwefan](#). Er bod rhai o'r adnoddau hyn wedi cael eu datblygu yn benodol i gefnogi'r trosglwyddiad i Gofrestriad Etholiadol Unigol, gellir eu diweddarau a'u haddasu ac felly efallai gallent ddal i fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi eich gweithgarwch yn lleol.

### Cymorth uniongyrchol

2.9 Bydd cymorth un-i-un uniongyrchol hefyd ar gael drwy ein swyddfeydd yng Nghymru a'r Alban a'n timau rhanbarthol yn Lloegr.

### Gwaith partneriaeth

2.10 Ni fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gallu cwrdd â'r her o gynnal cofrestr etholiadol gywir a chyflawn trwy weithio ar wahân. Bydd angen i chi weithio ar y cyd, gan dynnu ar arbenigedd pobl eraill, o fewn yr awdurdod lleol ac yn allanol.

2.11 I gefnogi eich gwaith partneriaeth lleol, rydym wedi cynhyrchu [amryw adnoddau partneriaeth sydd ar gael ar wefan y Comisiwn](#) sy'n cynnwys awgrymiadau ymarferol ar gyfer sut y gall partneriaid helpu i gael pobl i gofrestru. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu diweddarau cyn etholiadau, ond maenr yn cynnwys canllawiau cyffredinol ac awgrymiadau sy'n parhau i fod yn berthnasol a gallant gael eu rhannu gyda phartneriaid yn lleol. Gallwch hefyd danysgrifio i'n\_cylchlythyr

cofrestru pleidleiswyr 'Y Gofrestr' sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am hyrwyddo cofrestru a'n gwaith partneriaeth.

## Adolygu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd

2.12 Dylai'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd fapio pwy y mae angen i chi eu hymgysylltu, sut yr ydych yn mynd i'w targedu a sut yr ydych yn mynd i weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau eich bod yn cyrraedd pobl. Dylech fonitro a chadw'r ddogfen dan adolygiad, a'i diweddarau i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith yr ydych eisoes wedi'i wneud ac unrhyw wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am eich ardal gofrestru.

2.13 Dylai eich strategaeth nodi sut y byddwch yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i chi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd, ac o'ch gwaith parhaus i facsimeiddio cofrestru, i fireinio'r darlun o'r ddemograffeg yn eich ardal a chadarnhau beth yw'r heriau allweddol wrth ymgysylltu â'ch preswylwyr.


2.14 Dylai eich strategaeth amlinellu eich meysydd blaenoriaeth (a all fod wedi newid a dylid parhau i'w adolygu) a sut y byddwch yn targedu'n benodol grwpiau ac/neu ardaloedd penodol er mwyn maxsimeiddio cofrestru'r rhai sy'n gymwys.

2.15 Mewn perthynas â phartneriaid, er enghraifft, dylai amlinellu pwy fyddai'r partneriaid yn eu cyrraedd a sut y byddant yn cael eu hymgysylltu i sicrhau eu bod yn cydweithredu, sut y byddant yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a'u bod yn deall yr amseru ar gyfer y gwaith. Wrth adolygu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, dylech ystyried yr effaith y mae gwaith eich partneriaid eisoes wedi ei chael, a thrwy adeiladu ar y gwaith hwn, barhau i chwilio am bartneriaid newydd wrth i chi fireinio eich strategaeth ymhellach.


2.16 Dylai eich strategaeth hefyd ddangos sut y byddwch yn monitro a gwerthuso eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

2.17 Dylai cadw eich strategaeth dan adolygiad gynnwys y canlynol:

### Cam



### Cam



## Cam

3

**Adolygu'r sianelau sydd ar gael i ymgysylltu preswylwyr**

### **3a. Cyswllt uniongyrchol â phreswylwyr**


- Sut y cynhelir y canfas a gweithgarwch drwy'r flwyddyn
- Beth a wneir drwy gygol y flwyddyn i ddilyn i fyny gyda grwpiau sydd wedi eu tan-gofrestru

### **3b. Gweithio gyda phartneriaid lleol i gyrraedd cynulleidfaoedd targed**

- Adolygu'r gweithgarwch partneriaeth presennol
- Adnabod partneriaid posibl a gweithio gyda hwy i alluogi i'ch negeseuon gyrraedd ymhellach
- Cynnal perthnasau o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt
- Adeiladu cysylltiadau ag awdurdodau lleol eraill i gyflenwi ymgysylltu cydlynol a rhannu adnoddau ble bo'n

### **3c. Codi ymwybyddiaeth drwy hysbysebu a'r cyfryngau**


- Adolygu effeithiolrwydd sianelau cyfryngau, hysbysebu a chyfathrebu a ddefnyddiwyd ar gyfer y canfas diwethaf a gwaith cofrestru ehangach
- Yn seiliedig ar eich adolygiad, nodi sianelau priodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth
- Cynllunio cysylltiadau â'r cyfryngau ble bo'n briodol



Cam

4

Parhau i nodi a mireinio tactegau i gyrraedd eich cynulleidfaeodd targed fel rhan o'r adolygiad o'ch strategaeth a nodi gweithgarwch y gellir ei adlewyrchu yn eich cynllun cofrestru



Cam

5

Monitro a gwerthuso parhaus

- Monitro cynnydd
- Gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd

## Cam 1: Mireinio proffil eich ardal gofrestru

2.18 Bydd angen i'ch strategaeth ymdrin â sut i ymgysylltu'r rheiny sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru.

2.19 Mae ymchwil a wnaed gan y Comisiwn wedi canfod cysylltiadau clir rhwng cyfraddau cofrestru a pheth demograffeg benodol:<sup>2</sup>

- pobl iau (o dan 35) yn parhau i fod gryn dipyn yn llai tebygol o fod wedi cofrestru
- pobl sy'n rhentu gan landlord preifat yn parhau i fod gryn dipyn yn llai tebygol o fod wedi cofrestru
- pobl o ethnigrwydd gwyn neu rhai o rai Asiaidd yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru na rhai grwpiau ethnig Du, cymysg neu arall
- dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a'r Gymanwlad wedi eu tan-gofrestru
- y rhai a ddsbarthwyd fel gradd gymdeithasol DE yn llai tebygol o fod wedi cofrestru na graddau cymdeithasol eraill

2.20 Byddwch eisoes wedi adeiladu proffil manwl o gyfansoddiad eich ardal gofrestru gan ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael, megis data gan eich awdurdod lleol a'r cyfrifiad.

2.21 Dylech nawr adnewyddu'r wybodaeth y gwnaethoch ei defnyddio i adeiladu proffil eich ardal gofrestru ac ystyried unrhyw ddata ychwanegol y gellir ei ddefnyddio i fireinio'r darlun ymhellach. Er enghraifft, efallai fod gan yr awdurdod lleol wybodaeth ddemograffig am breswylwyr yn ogystal â'r math o weithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt, y gwasanaethau a ddefnyddiant, eu hagweddau, eu dewisiadau cyfathrebu a lle yn ddaearyddol y mae'r grwpiau gwahanol wedi'u clystyru.

2.22 Mae rhai awdurdodau yn defnyddio systemau dosbarthu defnyddwyr helaeth er mwyn adnabod y mathau o bobl yn eu hardal, fel y gallant ddod o hyd i bobl eraill sy'n cyd-fynd â'u proffil ac yna defnyddio adnoddau yn effeithiol i dargedu grwpiau o'r fath gyda gwybodaeth berthnasol. Efallai fod y data hwn wedi cael ei ddiweddararu ers i chi ddiweddararu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, a dylech sicrhau bod eich strategaeth yn adlewyrchu'r data diweddaraf. Bydd yr holl wybodaeth yn rhoi cipolwg o'r heriau penodol yn eich ardal gofrestru a'ch galluogi i fireinio'r gynulleidfa ar gyfer eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

2.23 Efallai y bydd eich grwpiau targed wedi eu dosbarthu'n gyfartal ar draws yr awdurdod, er enghraifft cyrhaeddwyr oedran, tra bydd eraill, fel myfyrwyr neu rentwyr preifat, wedi eu crynhoi mewn wardiau neu gymdogaethau penodol. Gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio i hysbysu eich cynllunio ar gyfer y canfas.

---

<sup>2</sup> Mae'r holl astudiaethau a gynhaliwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar ansawdd y cofrestrau etholiadol ar gael ar ein gwefan: <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/our-research/electoral-registration-research>



Ceir canllawiau manwl ar baratoi ar gyfer a chynnal canfas 2019 yn [Rhan 3: Canfas](#). Ceir canllawiau ar gynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dileu a gweinyddu adolygiadau cofrestru, ym Mhenodau 9 a 10 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr gydol y flwyddyn](#).



I gyflawni canlyniadau [safonau perfformiad 1](#), bydd angen i chi nodi a defnyddio ffynonellau data, yn ogystal â gwybodaeth arall sydd gyda chi, i amlygu grwpiau posibl o etholwyr sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru a datblygu darlun clir o'r heriau yn eich ardal. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi eu bodloni, dylai eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd gynnwys:

- dadansoddiad lefel ward o'r ardal
- ardaloedd blaenoriaeth i dargedu gweithgarwch cofrestru

## Cam 2: Gwirio'r gynulleidfa ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd

2.24 Bydd etholwyr cymwys yn eich ardal yn perthyn i grwpiau pendant mewn perthynas â chofrestru:

### **Yr anghofrestredig/ etholwyr newydd**

2.25 Bydd angen i unrhyw etholwr newydd wneud cais i gofrestru a darparu eu dynodwyr personol.

2.26 Mae'r rhai nad ydynt ar y gofrestr, gan gynnwys grwpiau sy'n nodweddiadol heb gofrestru, yn parhau i fod yn darged ar gyfer gweithgarwch cofrestru. Bydd y grwpiau sy'n llai tebygol o ymuno â'r gofrestr a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny yn amrywio yn ôl ardal, gan greu heriau lleol unigryw. Mae'n her barhaus i nodi materion lleol a chymryd camau mewn ymateb iddynt er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu cofrestru.

### **Grwpiau cymdeithasol sydd angen gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol**

2.27 Mae ymchwil wedi dangos bod rhai grwpiau yn fwy tebygol o fod heb eu cadarnhau neu o fod yn absennol oddi ar y gofrestr.

2.28 Mae'r rhesymau pam fod grwpiau penodol yn absennol o'r gofrestr yn amrywio - er enghraifft, efallai y byddant yn fyrarhosol o ran ble maent yn byw, efallai eu bod wedi'u dadrithio gan wleidyddiaeth, neu efallai nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau. Mae hyn yn golygu bod angen cyrraedd y grwpiau hyn mewn gwahanol ffyrdd, gan ddefnyddio gwahanol sianelau, ac y byddant yn cael eu cymell gan negeseuon gwahanol.

2.29 O'r data proffil rydych wedi'i gasglu, byddwch wedi adnabod y grwpiau cymdeithasol penodol yn eich ardal sy'n llai tebygol o ymuno neu fod ar y gofrestr, naill ai oherwydd eu bod yn nodweddiadol yn dan-gofrestredig, neu oherwydd nad ydynt fel arfer yn ymateb i gyfathrebiadau gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Bydd

angen gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol wedi'i dargedu ar y grwpiau hyn er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd eu bod yn ymuno â'r gofrestr. Gall y grwpiau hyn gynnwys:

#### **Grwpiau sydd wedi tan-gofrestru a rhai a all fod yn wynebu rhwystrau i gofrestru <sup>3</sup>**

- Rhentwyr preifat
- Symudwyr tŷ a phoblogaeth symudol
- Pobl ifanc (16-34)
- Cyrhaeddwyr oedran
- Dinasyddion UE a'r Gymanwlad
- Rhai grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (Affricanaidd, Cymysg, Bangladeshi)
- Pobl sydd wedi preswyllo yn eu heiddo ers llai na 2 flynedd
- Pobl sydd wedi byw yn y DU ers llai na 5 mlynedd
- Rhuglder isel mewn Saesneg
- Y di-waith
- Pobl ifanc heb gymwysterau
- Myfyrwyr yn eu cyfeiriad amser tymor

2.30 Efallai na fydd rhai heriau yn rhai cynulleidfa-benodol, ond gallant fod yn benodol i'ch ardal chi. Er enghraifft, efallai eich bod yn wynebu rhwystrau daearyddol, neu efallai bod gennych lefelau isel o gysylltiad band eang sy'n golygu y bydd pobl yn ei chael yn anoddach cael mynediad at gofrestru ar-lein. Dylai eich strategaeth hefyd ystyried sut i ymdrin â'r ystyriaethau hyn.

2.31 Byddwch wedi nodi'r grwpiau sydd angen gweithgarwch ymgysylltu penodol yn eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd. Ar ôl adolygu proffil eich ardal gofrestru, dylech adolygu'r grwpiau penodol a nodwyd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Efallai y bydd angen ailgyfeirio'ch adnoddau, efallai y bydd angen i chi barhau â'ch gwaith ond mireinio eich dull o weithredu, neu efallai fod grŵp arall wedi dod i'r amlwg sydd angen ymgysylltu penodol, megis cyrhaeddwyr.

#### **Etholwyr sydd eisoes wedi cofrestru**

2.32 Bydd enwau'r etholwyr wedi'u cynnwys ar Ffurflenni Ymholiad y Cartref sy'n cael eu hanfon allan fel rhan o'r canfas. Bydd angen iddynt wybod sut i gadarnhau bod y manylion a gynhwysir ar y Ffurflen Ymholiad y Cartref yn gywir, a beth i'w wneud os oes angen unrhyw newidiadau i'w gwybodaeth gofrestru.



Mae canllawiau manwl o ran paratoi a chynnal canfas 2019 ar gael yn [Rhan 3: Canfas](#). Mae canllawiau ar gynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dileadau a gweinyddu adolygiadau cofrestru, ym Mhenodau 8 a 10 [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).

<sup>3</sup> Ceir mwy o wybodaeth fanwl yn [Cofrestru Etholiadol yn 2011](#).

## Cam 3: Adolygu'r sianelau ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr

2.33 Byddwch eisoes wedi nodi a gweithredu sianelau ar gyfer cyrraedd y grwpiau targed a nodwyd gennych. Dylech barhau i werthuso eich dull a phenderfynu beth weithiodd yn dda a beth oedd yn llai llwyddiannus, gan gydnabod y gall gwahanol sianelau weithio'n wahanol i wahanol grwpiau.

2.34 Dylech ystyried effeithiolrwydd y sianelau a ddefnyddiwyd gennych yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd, ac yn eich gwaith cofrestru ehangach parhaus, a p'un a wnaethant eich galluogi i gyrraedd eich cynulleidfa darged. I gael gwybodaeth bellach am fonitro a gwerthuso eich gweithgarwch, gweler cam 5 isod.

2.35 Mae sianelau enghreifftiol, fel y nodir isod, yn cynnwys:

- 1. Cyswllt uniongyrchol gyda phreswylwyr - p'un ai drwy lythyr, wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn**
- 2. Gweithio gyda phartneriaid - megis adrannau awdurdodau lleol neu sefydliadau cymunedol**
- 3. Hysbysebu a chysylltiadau cyfryngau - megis posteri neu ddigwyddiadau cyhoeddusrwydd**

### 3a: Cyswllt uniongyrchol gyda phreswylwyr

2.36 Eifen bwysig o'ch strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yw'r cyswllt uniongyrchol sydd gennych â phreswylwyr unigol. Mae hyn yn cynnwys llythyrau, sgysiau ffôn, negeseuon testun, negeseuon e-bost, ac ymweliadau o dŷ i dŷ. Bydd y canlyniadau o canfas 2015 a gwaith cofrestru ehangach yn rhoi gwybodaeth dda i chi ynghylch pa ardaloedd sy'n ymateb yn gyflym i gyfathrebiadau ysgrifenedig a pha rai sydd fwyaf tebygol o fod angen ymweliadau. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu eich cynlluniau ar gyfer y canfas. Er enghraifft, mewn ardaloedd nad ydynt yn ymateb yn dda i gyfathrebiadau ysgrifenedig, efallai y byddai'n well defnydd o adnoddau i ymgymryd ag ymweliadau personol ynghynt yn y broses o'i gymharu ag ardaloedd eraill.

2.37 Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi gwahoddiad i gofrestru drwy ddulliau electronig, gan gynnwys dryw e-bost. Mae hyn yn golygu, yn hytrach nag anfon gwahoddiad i gofrestru i etholwyr posibl gyda ffurflen gofrestru pleidleisiwr ac amlen ymateb, gallwch (lle bo gennych eu cyfeiriad e-bost) anfon e-bost yn eu gwahodd i gofrestru gyda dolen i [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio). Dylid adlewyrchu hyn yn eich strategaeth a chynlluniau cofrestru ehangach.

2.38 Rhaid i'r llythyrau a'r e-byst rydych yn eu hanfon fod yn hawdd i'w deall a chario negeseuon clir am yr hyn y mae angen i'r derbynydd ei wneud. Dylech ddefnyddio'r geiriad templed a ddarparwyd gan y Comisiwn, sy'n adlewyrchu canlyniadau profion gyda defnyddwyr.




2.39 Ar gyfer eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynllun cofrestru, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r broses ymarferol ar gyfer ysgrifennu at breswylwyr ar gyfer y canfas, gan gynnwys amseroedd. Bydd angen i chi hefyd ystyried yr amseriadau ar gyfer eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cefnogi'r canfas, a ddylai gynnwys unrhyw gyfleoedd posibl i greu cysylltiad â gweithgaredd cofrestru cenedlaethol neu leol ehangach.

2.40 Er enghraifft, mae Wythnos Genedlaethol Democratiaeth, sy'n ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n deall ac yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, yn gyfle o'r fath. Yn dibynnu ar bryd y byddwch yn cyhoeddi'ch HEFs ar gyfer y canfas, efallai y gallwch achub ar y cyfle hwn a'r cyhoedduswydd cenedlaethol cysylltiedig i ysgogi ymatebion i'r canfas a chodi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau sydd wedi tangofrestru.

2.41 Byddwn yn rhoi'r diweddaraf ichi am ein cynlluniau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Ddemocratiaeth drwy'n [Bwletin Gweinyddiaeth Etholiadol](#). Dylech chi hefyd sicrhau eich bod wedi tansgrifio i'n cylchlythyr [y Gofrestr](#) sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am hybu cofrestru pleidleiswyr a'n gwaith partneriaeth.

2.42 Mae Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi [adnoddau](#) ar gael y gallwch chi eu defnyddio i hyrwyddo gweithgareddau cofrestru rydych wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn. Mae gan Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Addysg adnodd i ysgolion uwchradd a Theclyn Ymgysylltu â leuenctid i seneddwyr ei ddefnyddio gyda phobl ifanc yn eu hardal. Yn ogystal bydd gwefan [Wythnos Genedlaethol Democratiaeth](#) yn cynnwys manylion digwyddiadau'r haf yma a manylion Gwobrau Wythnos Democratiaeth a gallwch [danysgrifio](#) i gylchlythyr Wythnos Genedlaethol Democratiaeth sy'n rhoi diweddariadau ynghylch Wythnos Genedlaethol Democratiaeth.

 **Rhannu arfer da**

Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ffordd mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio eu deunydd swyddfa a'u deunyddiau cofrestru i annog ymatebwyr yn ein hadnodd ['Annog ymatebion'](#).

Ceir enghreifftiau o'r ffordd mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi teilwra eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn ysgogi ac ymgysylltu â phobl i weithredu yn eu hardal yn ein hadnodd ['Cyfathrebu'](#).

### **Delio ag ymateb o'r canfas ac amseroedd brig cofrestru eraill**

2.43 Mae angen i'ch eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a chynllun cofrestru ymdrin â sut y gellir sicrhau adnoddau effeithiol ar gyfer y lefel uchel o ymatebion ac ymholiadau a fydd yn digwydd o amgylch amseroedd brig mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn y cyfnod yn arwain at amseroedd cau cofrestru.

2.44 Bydd gennych brofiad o reoli cyfnodau brig yn eich llwyth gwaith yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd a dylech ddefnyddio'r profiad hwn i gynllunio ar gyfer y cyfnodau brig o gwmpas y canfas ac yn y cyfnod yn arwain at unrhyw etholiadau a drefnwyd eisoes.

## Delio ag ymholiadau gan breswylwyr

2.45 Bydd y canfas a gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd arall y daw preswylwyr i gysylltiad â hwy'n ysgogi ymholiadau a chwestiynau. Mae'n bwysig eich bod yn darparu cefnogaeth ddigonol i breswylwyr sydd ag ymholiadau o ran:

- Sianelau ymholiadau – mae darparu cymorth dros y ffôn ar gyfer ymateb gwybodaeth i'r cyhoedd yn bwysig oherwydd bydd llawer o breswylwyr yn cael anawsterau cael mynediad at y rhyngwyd neu i ddeall deunydd ysgrifenedig.

Ar yr un pryd, bydd preswylwyr eraill yn disgwyl gallu anfon ymholiadau trwy e-bost, siarad â rhywun wyneb-yn-wyneb neu ysgrifennu llythyrau at y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn ogystal, efallai y bydd rhai preswylwyr yn ceisio siarad â staff rheng flaen arall yr awdurdod lleol tu allan i'r tîm cofrestru etholiadol neu'r ganolfan gyswllt gorfforaethol, megis mewn llyfrgelloedd neu ganolfannau hamdden.

Dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu sesiynau briffio wyneb yn wyneb neu wybodaeth ysgrifenedig i staff yr awdurdod lleol yn y cyfleusterau hyn er mwyn iddynt allu ymateb i unrhyw ymholiadau y gallech eu derbyn am y canfas neu yn y cyfnod yn arwain at etholiadau a drefnwyd, ac mewn etholiadau a drefnwyd. Dylai'r sesiynau briffio neu'r wybodaeth ysgrifenedig adlewyrchu'r mathau o faterion a godwyd gan drigolion yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd.

- Os ydych yn darparu dulliau eraill i breswylwyr gysylltu â chi, fel Facebook, Twitter, gwe-ffurflenni, a negeseuon testun, dylech adolygu pa mor effeithiol fu'r sianelau hyn wrth ymateb i ymholiadau, a hefyd nifer y cwestiynau yr ydych wedi eu derbyn drwy'r sianelau.

Er enghraifft, os cawsoch chi nifer sylweddol o ymholiadau drwy gyfrwng ffurflenni gwe, gallai hyn ddangos defnydd uchel o wefan eich awdurdod lleol, ond gall hefyd awgrymu y gallai'r wybodaeth a ddarperir yno fod yn gliriach er mwyn gostwng y nifer o ymholiadau.

Dylai'r gwahanol sianelau a ddewiswch ar gyfer cyfathrebu gael eu hyrwyddo yn eich deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd ac yn y gweithgarwch ymgysylltu y byddwch yn ymgymryd ag ef.

- Adnoddau - os ydych yn hyrwyddo dull o gysylltu â'r awdurdod lleol, fel rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost, mae angen i chi sicrhau fod gennych ddigon o adnoddau ar ei gyfer.

Dylech adolygu effeithiolrwydd eich adnoddau yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd i hysbysu eich cynllunio yn y dyfodol - er enghraifft, a oeddech yn gallu ymateb i ymholiadau a dderbyniwyd dros y ffôn, e-bost neu sianelau eraill mewn modd prydlon ac effeithlon? Gallai derbyn nifer fawr o ymholiadau drwy un sianel ddangos y dylech ddyrannu adnoddau ychwanegol i ymateb ymholiadau drwy'r sianel benodol honno.

Dylech hefyd ystyried faint o ymholiadau a ddaeth trwy lwybrau nad oeddech yn eu hyrwyddo, a nodi sut y gallwch sicrhau orau bod gweithwyr yn cael eu briffio i'w rheoli. Lle cawsoch gysylltiad sylweddol drwy ddull nad oeddech yn ei hyrwyddo, gallai hwn fod yn ddull cyfathrebu yr hoffech ystyried ei ddefnyddio ymhellach yn y dyfodol. Er mwyn cynllunio ar gyfer y lefelau o adnoddau, dylech ystyried:

- Yr amseroedd brig ar gyfer y galw am wybodaeth gan y cyhoedd. Mae'r rhain yn debygol o ddigwydd yn dilyn amseroedd brig mewn gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, er enghraifft yn yr wythnosau ar ôl anfon Ffurflenni Ymholiad y Cartref ar gyfer y canfas, ac yn y cyfnod yn arwain at ddyddiadau cau cofrestru.
  - Pa lefel o ymholiadau a gawsoch yn ystod y cyfnod brig o ran gweithgarwch cofrestru megis yn ystod cyfnodau allweddol y canfas diwethaf, a pha lefel o ymholiadau a fyddwch yn arfer ei chael yn yr amser yn arwain i fyny at ddyddiadau cau cofrestru
  - P'un a ydych mewn sefyllfa i allanoli ymatebion, er enghraifft drwy gontractio canolfan alw arbenigol, neu a ydych yn gallu cynyddu adnoddau yn eich canolfan alw bresennol. Dylech adolygu effeithiolrwydd eich dull gweithredu yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd, ac ystyried yng ngoleuni eich profiadau p'un a oes angen i chi wneud unrhyw beth yn wahanol.
  - Pa gynlluniau wrth gefn y gallwch roi yn eu lle ar gyfer ymateb i breswylwyr os yw ymholiadau yn llawer uwch na'r disgwyl. Dylech brofi eich trefniadau wrth gefn er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn.
- Amser ymateb – pan nad yw ymholiadau yn cael eu trin ar unwaith, mae'n bwysig eich bod yn sefydlu amserlen bendant lle bydd ymatebion yn cael eu gwneud, a dylech roi gwybod i'r ymholwr pryd y gallant ddisgwyl derbyn ateb.

Er enghraifft, gallech sefydlu ymateb awtomatig i e-bost sy'n gadael i'r ymholwr wybod y byddwch yn dod yn ôl atynt o fewn 48 awr. Gallech gynnwys atebion i gwestiynau cyffredin gyda'r ymateb awtomataidd hwn, ynghyd â dolenni i [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio) ac i'r ffurflenni pleidleisio absennol ar eich gwefan neu ar [www.dybleidlaisdi.co.uk](http://www.dybleidlaisdi.co.uk)

- Gwybodaeth a ddarperir - bydd angen i chi sicrhau bod gweithwyr sy'n ymateb i ymholiadau yn cael eu paratoi'n llawn i ateb cwestiynau neu gyfeirio'r galwr i'r lle iawn. Mae hyn yn golygu meddwl am y cwestiynau tebygol y bydd gan bobl a datblygu sgriptiau a llinellau i ateb y rhain.


Rydym wedi darparu adnodd [Cwestiynau Cyffredin](#) i'ch cefnogi i wneud hyn, y gellir ei weld ar ein gwefan. Dylech hefyd ystyried briffio staff perthnasol fel bod ganddynt ddealltwriaeth o'r broses gofrestru a'r wybodaeth o'i chwmpas.

## Gostwng lefel yr ymholiadau

2.46 Bydd darparu gwybodaeth am gofrestru sy'n glir ac yn hawdd ei ganfod ar eich gwefan, a chyfeirio preswylwyr i'r wefan gofrestru ar-lein ([www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio)) a [www.dybleidlaisdi.co.uk](http://www.dybleidlaisdi.co.uk) yn helpu i leihau'r baich ar y llinellau ymateb gwybodaeth i'r cyhoedd. Y mwyaf o wybodaeth sydd ar gael a'r hawsaf yw hi i gael gafael arni, y lleiaf yn y byd y bydd pobl yn mynd yn rhwystredig ac yn estyn am y ffôn. Mae hyn yr un mor berthnasol i adnoddau gwybodaeth eraill a roddwch i breswylwyr.

## Dilyn i fyny gyda'r rhai na wnaeth ymateb

2.47 Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymryd camau i gael ymatebion gan breswylwyr mewn ymateb i Ffurflenni Ymholiad y Cartref (HEF) a gwahoddiadau i gofrestru. Bydd hyn yn cynnwys anfon nodiadau atgoffa pellach o ran y ddwy ffurflen, a defnyddio canfaswyr i gynnal ymweliadau personol i eiddo/unigolion nad ydynt yn ymateb. Dylai eich cynllun cofrestru nodi sut y byddwch yn gwneud hyn.



Mae [Rhan 3 – Canfas](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr agweddau ymarferol o gyhoeddi nodiadau atgoffa a gwneud ymweliadau personol yn ystod y canfas..

## 3b: Gweithio gyda phartneriaid i gyrraedd cynulleidfaoedd targed

2.48 Bydd parhau i weithio gyda phartneriaid, y tu mewn a thu allan i'r awdurdod lleol, yn allweddol drwy gydol y cyfnod o gyflenwi eich cynllun cofrestru ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd.

2.49 Mae'r opsiwn o wneud cais i gofrestru ar-lein yn rhoi nifer o gyfleoedd i integreiddio'r cofrestriad gyda gwasanaethau eraill y mae'r cyngor yn darparu ac i ddarparu cofrestru etholiadol yn fwy effeithlon.

2.50 Er enghraifft, os nad ydych eisoed wedi gwneud, gellid cyfeirio at y ffurflen gofrestru ar-lein ar y tudalennau gwe hynny y mae trigolion yn eu defnyddio'n gyffredin i wneud trafodion gyda'r awdurdod lleol, megis y dudalen i gofrestru a thalu'r dreth gyngor.

2.51 Gall partneriaethau eich helpu mewn nifer o ffyrdd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd:

- Yn achos rhai grwpiau cymdeithasol, mae'n fwy tebygol y gweithredir ar negeseuon os ydynt yn dod gan rywun y maent yn ymddiried ynddo ac yn ei adnabod - er enghraifft, efallai y byddwch yn cysylltu ag arweinydd neu sefydliad cymunedol uchel ei barch i ofyn iddynt siarad â'u cymuned am y newid.
- Gall partneriaid hefyd godi ymwybyddiaeth drwy wneud y mater yn rhan gyfarwydd o fywyd bob dydd.

- Gall partneriaid ymestyn cyrhaeddiad eich hysbysebu - er enghraifft, gallai deintyddion roi posteri i fyny yn eu hystafell aros.
- Gall partneriaid gynnwys gwybodaeth yn y cyfathrebu y maent eisoes yn ei anfon allan.
- Gall partneriaid megis elusennau hefyd eich helpu i gynyddu eich gallu trwy ateb cwestiynau pobl a'u cynorthwyo i lenwi ffurflenni.

2.52 Gall gymryd amser i sefydlu partneriaethau a meithrin cysylltiadau effeithiol. Dylai partneriaethau fod yn rhad ac am ddim, gyda phob ochr yn cael budd wrth fynd i mewn i'r bartneriaeth. Fodd bynnag, efallai y ceir rhai costau - er enghraifft, cynhyrchu deunyddiau i bartneriaid eu defnyddio gyda phreswylwyr. I gynorthwyo gyda hyn, mae ystod o [adnoddau ymgysylltu â'r cyhoedd](#) ac [adnoddau partneriaeth](#) ar gael ar wefan y Comisiwn y gellid eu defnyddio neu eu datblygu fel asedau ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol. Gallwch hefyd danysgrifio i'n cylchlythyr [cofrestru pleidleiswyr 'y Gofrestr'](#) sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am hyrwyddo cofrestru pleidleiswyr ac am ein gwaith partneriaeth.

2.53 Bydd y rhain yn cael eu diweddarau fel bo'n briodol cyn etholiadau a drefnwyd eisoes, ond maent yn cynnwys canllawiau cyffredinol ac awgrymiadau sy'n parhau i fod yn berthnasol ac felly'n dal i fod yn berthnasol i gefnogi'ch gweithgarwch yn lleol.

2.54 Gall partneriaethau gael eu sefydlu ar bob lefel, o weithio gydag arweinwyr cymunedol unigol i fusnesau cenedlaethol, fel rhan o strategaeth 'marchnata partneriaeth' fawr. Mae angen i bartneriaethau hefyd gael eu hadeiladu'n fewnol o fewn yr awdurdod lleol, a gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer yr awdurdod lleol. Bydd yn bwysig i chi nodi a meithrin perthynas gyda'r pwynt cyswllt cywir ym mhob achos.



I allu cyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi nodi partneriaid addas yn fewnol ac yn allanol y credwch all eich cynorthwyo i sicrhau bod yr holl etholwyr cymwys yn cael eu hannog i gofrestru i bleidleisio. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u cyflawni dylai eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd gynnwys sut fyddwch yn defnyddio'r sianeli sydd ar gael i gyrraedd y grwpiau a nodwyd ac etholwyr presennol, gan gynnwys nodi partneriaid lleol i gynorthwyo â hyn.

### **Yr hyn y gall partneriaid ei wneud**

2.55 Bydd maint ac amseriad y partneriaethau a faint o weithgarwch y maent yn ymgymryd ag ef yn amrywio'n fawr. Gallai gynnwys rhoi ffurflenni cofrestru i werthwyr tai eu hatodi at gytundebau rhentu, nodi elusennau sydd â gwirfoddolwyr sy'n barod i helpu pobl lenwi ffurflenni, neu weithio gyda chyflogwr lleol mawr sy'n awyddus i gefnogi achosion cymunedol. Gallai hefyd olygu eich bod yn darparu deunyddiau ar gyfer darparu gweithdy ar ddemocratiaeth a chofrestru, neu weithio gyda'ch gilydd i wneud hynny. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y partner yn gallu nodi cyfleoedd nad ydych wedi eu hystyried.

## **Nodi partneriaid posibl**

2.56 Ar y cam hwn, mae'n bwysig i'ch strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd adeiladu ar y trefniadau partneriaeth presennol rydych wedi eu sefydlu, yn ogystal ag adnabod darpar bartneriaid.

2.57 Gallai partneriaid gynnwys grwpiau neu unigolion sydd:

- eisoes wedi cefnogi gwaith cofrestru
- yn cyfathrebu'n rheolaidd neu'n sylweddol gyda chynulleidfaoedd targed
- â pherthynas dda gyda chynulleidfaoedd targed ac wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol, ond nid ar gofrestru
- â pherthynas dda gyda chynulleidfaoedd targed ond erioed wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol
- â phroffil uchel yn yr ardal leol ymysg cynulleidfaoedd eang

2.58 Gallai partneriaid gynnwys:

- Darparwyr gwasanaethau - er enghraifft, cymdeithasau tai, gwasanaethau gofal cartref, colegau addysg bellach.
- Sefydliadau eraill y llywodraeth a thimau awdurdod lleol - er enghraifft, cynghorau plwyf, gwasanaethau tai, gwasanaethau cymdeithasol.
- Unigolion dylanwadol - er enghraifft, landlord myfyrwyr amlwg, enwogion lleol, gwleidyddion, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.
- Grwpiau cymunedol ac elusennau - er enghraifft, clwb bocsi, Gwarchod y Gymdogaeth, clwb cymdeithasol i'r rhai dros 60 oed, elusen anabled.
- Cwmnïau preifat a sefydliadau - er enghraifft, cyflogwr mawr lleol, campfa, deintydd, gwerthwr tai.

2.59 Am enghreifftiau pellach, gweler ein taflenni tactegau enghreifftiol o dan 'Cam 4: Parhau i nodi a mireinio tactegau i gyrraedd eich cynulleidfa darged leol' isod.

2.60 Gan na fyddwch yn gallu gweithio gyda phawb, bydd angen i'r prosesau gwneud penderfyniadau ar bartneriaethau posibl ystyried y darlun lleol, gan gynnwys pwy fydd yn cyrraedd y grwpiau targed orau, beth yw'r ystyriaethau ymarferol o ran cydweithio, beth fyddai lefel ymgysylltu yn y bartneriaeth, ac ystod o ffactorau eraill a fyddai'n amrywio yn lleol.

2.61 Bydd gwerthusiad o'r gwerth a ychwanegwyd gan eich partneriaid presennol yn ystod y canfas diwethaf ac mewn etholiadau a drefnwyd yn amhrisiadwy wrth hysbysu penderfyniadau ar bartneriaethau i'r dyfodol.

2.62 Bydd angen i chi hefyd ystyried budd cost - gall rhai partneriaethau gymryd llawer iawn o amser i'w sefydlu a chyrraedd dim ond nifer fach iawn o bobl. Ond os yw'r bobl hynny yn uchel ar eich rhestr darged ac yn annhebygol o gymryd rhan mewn ffyrdd eraill, efallai y bydd y bartneriaeth yn dal i fod yn werth chweil.

2.63 Yn yr un modd, dylai sefydliad sy'n gweithio gyda phreswylwyr nad ydynt ar eich rhestr targed, ond sy'n cyrraedd nifer fawr o breswylwyr ac sydd wedi ymrwymo i gymryd amser i ledaenu eich negeseuon, o leiaf gael ei ystyried.

2.64 Gall fod yn fuddiol categoreiddio eich rhestr o bartneriaid yn seiliedig ar eu gallu i gyflenwi, gan nodi pa bartneriaid sydd angen mwy o adnoddau gennych i'w helpu i ddarparu gweithgarwch mwy manwl, o'i gymharu â'r partneriaid hynny sydd wedi cytuno i wneud dim ond trosglwyddo neu hyrwyddo negeseuon cofrestru.

2.65 I gefnogi eich gwaith partneriaeth rydym wedi fe cynhyrchu nifer o [adnoddau partneriaeth](#) sydd ar gael ar wefan y Comisiwn sy'n cynnwys awgrymiadau ymarferol ynglŷn â sut gallai partneriaid helpu i gael pobl i gofrestru. Bydd yr adnoddau yn cael eu diweddarau cyn etholiadau sydd wedi'u trefnu eisoes, ond mae'n cynnwys canllawiau ac awgrymiadau cyffredinol sy'n parhau i fod yn berthnasol a gellir ei rannu gyda phartneriaid yn lleol.

### **Gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol**

2.66 Gall ymgeiswyr a'u cefnogwyr ymestyn eich cyrhaeddiad cofrestru oherwydd gallant fod â diddordeb mewn hyrwyddo cofrestru yn ystod eu hymgyrchu etholiadol. Mae gan bleidiau nifer o wirfoddolwyr a allai fod yn canfasio ar garreg y drws ac felly gallent ledaenu eich neges cofrestru. Lle nad yw ymgeiswyr, pleidiau a gwleidyddion wedi'u hymgysylltu, mae perygl y gallai'r negeseuon a'r wybodaeth y maent yn eu rhoi i breswylwyr am gofrestru fod yn anghywir neu'n anghyflawn. Mae'n bwysig felly eich bod yn datblygu cynllun ar gyfer gweithio gyda'r unigolion a'r grwpiau hyn a'u bod yn deall sut mae'r broses gofrestru yn gweithio.

### **Mynd at bartneriaid i drafod cefnogi cofrestru**

2.67 Bydd angen i chi gysylltu â phartneriaid posibl neu bresennol am y posibilrwydd eu bod yn cefnogi eich gwaith cofrestru. I raddau, bydd angen i chi 'werthu' eich cais iddynt i sicrhau ei fod ganddo'r cyfle gorau i sicrhau eu cydweithrediad, yn enwedig gan y gallant dderbyn ceisiadau gan sefydliadau eraill.

2.68 Cyn i chi fynd at bartneriaid, byddai'n ddefnyddiol cael syniadau am sut y gallant helpu a sut fyddai helpu o fudd iddynt hwy ac i'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy. Mae hefyd yn werth meddwl am amseriad eich dull - er enghraifft, a fyddant yn brysur ar adeg benodol gyda blaenoriaeth benodol?

2.69 Dylech ystyried pa mor effeithiol oedd eich dull o fynd at y partneriaid hyn ar gyfer y canfas diwethaf a'ch gwaith cofrestru dilynol, a nodi a oes unrhyw beth y gallech ei wneud yn wahanol i sicrhau gwell canlyniadau.

2.70 Er gwaethaf eich ymdrechion, ni fydd rhai sefydliadau ac unigolion mewn sefyllfa i gymryd rhan, ac mae'n bwysig eich bod yn derbyn hyn a lle bo'n bosibl ystyried dewisiadau eraill. Bydd angen i chi hefyd gefnogi partneriaid trwy gydol y gweithgarwch er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn parhau'n ymgysylltiedig.

### **Risgiau partneriaeth**

2.71 Bydd cynnwys unigolion a sefydliadau eraill yng nghyflenwad eich cynlluniau'n golygu risgiau. Nid yw hynny'n dweud y dylai risgiau eich atal rhag gweithio gyda phartneriaid, ond bydd angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt a nodi mesurau lliniaru priodol i risgiau penodol yn eich ardal chi - dylai hyn gael ei nodi yn eich cofrestr risg a materion. Mae rhai o'r risgiau posibl yn cynnwys:

- **Mae'r bartneriaeth yn arwain at gwynion ar raddfa eang** – er enghraifft oherwydd canfyddiad nad yw Swyddog Cofrestru Etholiadol yn wleidyddol niwtral os yw'r partner yn cymryd rhan mewn ymgyrchu gwleidyddol.
- **Mae'r partner yn camliwio eich neges** - A ydynt yn deall y berthynas a'u cyfrifoldebau? A ydynt yn deall y neges rydych am ei chyfleu i breswylwyr? A ydynt yn cadw at y neges, ac i ba raddau y mae ots os nad ydynt yn gwneud? A ydynt yn glir pryd fydd y gwaith yn dod i ben, neu pan fydd y neges yn newid?
- **Nid yw'r partner yn gwneud y gwaith yr oeddent wedi cytuno ei wneud** - A yw'r risg hwn yn fwy arwyddocaol oherwydd eich bod wedi rhoi amser ac arian i mewn i'r berthynas? Efallai eu bod wedi camddeall y llwyth gwaith, neu ganfod eu hunain gyda blaenoriaeth annisgwyl, neu efallai eu bod yn dechrau mynd i gostau ychwanegol a'u bod yn disgwyl ad-daliad.
- **Blinder cofrestru** – gall brwdfrydedd cychwynol bylu, felly bydd yn bwysig ceisio cynnal momentwm mewn unrhyw waith partneriaeth, gan gynnwys drwy gynnal cyfathrebu a rhoi adborth.
- **Mae'r gost yn fwy na'r budd** - Efallai y byddwch yn cynhyrchu deunyddiau cynhwysfawr, ond nad yw'r sefydliad yn gwneud fawr ddim i helpu cefnogi eich gwaith cofrestru.

2.72 Dylech ystyried datblygu pa linell i'w chymryd os yw sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth â chi yn denu sylw negyddol yn y wasg, a allai lusgo eich awdurdod lleol chi i mewn iddo.

2.73 Wrth werthuso'r gwaith partneriaeth rydych wedi ymgymryd ag ef, dylech ystyried pa mor effeithiol oeddech yn lliniaru'r risgiau a amlinellir uchod ac unrhyw risgiau eraill a nodwyd gennych. Dylai'r pwyntiau dysgu hyn gael eu hadlewyrchu yn eich strategaeth ymgysylltu wedi'i diweddarau, a'u defnyddio i helpu hysbysu eich dull o weithio mewn partneriaeth gydag eraill.

### Sefydlu'r bartneriaeth

2.74 Wrth sefydlu'r bartneriaeth, gan ystyried y risgiau uchod ac unrhyw risgiau eraill yr ydych wedi'u nodi'n lleol, dylid ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- esbonio pam fod y bartneriaeth yn fuddiol i'r ddwy ochr
- cytuno ar lefel y gefnogaeth y bydd y partner yn ei gynnis
- deall y mecanweithiau y byddant yn eu defnyddio i gyrraedd eu cynulleidfa
- cytuno a fydd angen unrhyw ddeunyddiau ac, os felly, pwy fydd yn eu cynhyrchu
- cytuno ar ba negeseuon y byddant yn eu defnyddio wrth gyfathrebu â'u cynulleidfa
- cytuno ar ba wybodaeth y byddant yn ei darparu ar sut y gall y gynulleidfa ymateb neu lle y gallant gael mwy o help
- cytuno ar bwy yn yr awdurdod lleol fydd ar gael i ateb cwestiynau'r partner
- bod yn glir ynghylch amseru a phryd y mae angen i negeseuon newid
- sefydlu cyfathrebu rheolaidd



- sicrhau os nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad eu bod yn agored i atal y gweithgarwch a dychwelyd y deunyddiau, lle bo'n berthnasol
- cytuno ar ddull o werthuso'r gweithgarwch

2.75 Yn enwedig ar gyfer partneriaethau mwy, efallai y byddwch eisiau sgwrs dros y ffôn neu gyfarfod wyneb-yn-wyneb i ymdrin â'r ystyriaethau hyn. Dylech chi a'ch partner werthuso effeithiolrwydd y gweithgarwch a darparu adborth fel y bo'n briodol. Er enghraifft, os yw'r gweithgarwch wedi arwain at gynnydd yn lefelau cofrestru eich grŵp targed, dylech sicrhewch eich bod yn dweud wrth eich partner am y llwyddiant hwn gan y gallai hyn annog eich partner i wneud gwaith pellach gyda chi. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, bydd angen ichi fod yn gallu dangos bod yr holl wybodaeth a gafwyd, boed o bartneriaid mewnol neu allanol, yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y caiff ei phrosesu i gyd mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw.

- At hyn, pan fyddwch yn cael data personol o gyrrff allanol, dylech chi ystyried bod â chytundeb rhannu data ffurfiol. Mae'n debygol y bydd y sefydliadau hyn yn rheolwyr data yn eu hawl eu hunain, er enghraifft, bydd prifysgolion a chartrefi gofal yn dal data personol ar eu myfyrwyr a'u trigolion.

2.76 Yn ogystal, pan fyddwch yn cael data personol o sefydliadau allanol, dylech ystyried trefnu cytundeb rhannu data ffurfiol. Mae'n debygol y bydd y sefydliadau hyn yn rheolwyr data eu hunain, er enghraifft bydd prifysgolion a chartrefi gofal yn dal data personol ar eu myfyrwyr a'u trigolion.

2.77 Er nad yw diogelu data'n gofyn bod cytundeb ysgrifenedig pan fyddwch yn rhannu data rhwng rheolwyr data, argymhellir yn gryf eich bod yn cytuno ar gytundeb/protocol rhannu data gyda'ch partner. Bydd hyn yn eich helpu i ddangos eich bod yn gweithredu yn unol â deddfwriaeth diogelu data.



Mae ei [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a'r Mesur Deddf Diogelu Data 2018 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â diogelu data.

### 3c: Codi ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio hysbysebu a'r cyfryngau

2.78 Mae gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd megis hysbysebu a gweithio gyda'r cyfryngau yn rhan bwysig o ymgysylltu â'r cyhoedd. Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, mae gennych ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cyfranogiad, a bydd angen i chi wneud eich hysbysebu eich hun cyn belled ag y bo modd - gall hyn fod yn y cyfryngau yr ydych eisoes yn berchen arnynt fel cylchlythyrau awdurdodau lleol, gwefannau, arosfannau bws, safleoedd poster neu fyrddau hysbysiadau. Bydd gennych hefyd nifer o sianelau eraill ar gael ar gyfer codi ymwybyddiaeth, megis cyfryngau cymdeithasol ac offerynnau cysylltiadau cyfryngau.

2.79 Ar gyfer eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, dylech sicrhau bod eich gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cael ei gyd-drefnu i ddigwydd ar

adegau a fydd yn cefnogi orau eich gweithgarwch, fel pwynt allweddol yn y canfas ac yn y cyfnod yn arwain i fyny at etholiadau sydd wedi'u trefnu eisoes.

### **Cael y cyhoedd i gymryd camau**

2.80 Prif amcan eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yw cael preswylwyr i gymryd camau.

2.81 Cynaliasom ymchwil yn flaenorol gyda'r cyhoedd, o dan arweiniad Ipsos Mori, er mwyn sefydlu pa negeseuon cyfathrebu oedd y gorau o ran cymell ac ymgysylltu pobl i weithredu. Dangosodd y canfyddiadau ymchwil<sup>4</sup> fod yr elfennau allweddol hyn yn cymell pobl:

- 'Mae pleidleisio'n cyfrif' (nid yw llawer o bobl yn gwahaniaethu rhwng pleidleisio a chofrestru)
- osgoi colled (yr awgrym eich bod yn colli rhywbeth os nad ydych yn cofrestru)

### **Amseru**

2.82 Mae amseru'r gweithgarwch hysbysebu yn hanfodol er mwyn i hynny gael effaith, a hefyd i sicrhau nad yw pobl yn arfer gymaint â'r neges fel nad ydynt yn gwrandao arni bellach. Efallai y byddwch am ystyried cyfyngu ar y defnydd o rai sianelau i'r cyfnodau lle byddant yn cael yr effaith fwyaf a gwneud y gorau o ganlyniadau'r gweithgarwch arall yr ydych yn ei gynnal, fel gwaith partner, digwyddiadau cymunedol a gweithgarwch cysylltiadau cyfryngau.

2.83 Efallai y byddwch eisiau cyd-drefnu hysbysebu a gweithgarwch arall i ddod i'r brig ar yr adegau allweddol, yn ystod y canfas ac yn y cyfnod yn arwain i fyny at etholiadau sydd eisoes wedi'u trefnu.

### **Defnyddio eich sianelau cyfryngau eich hunain (y cyfryngau rydych yn berchen arnynt)**

2.84 Dylech barhau i ystyried y manau gorau i arddangos eich hysbysebion. Gall prynu cyfryngau (gofod hysbysebu) megis safleoedd poster awyr agored a hysbysebion yn y wasg fod yn afresymol o ddrudd. Gall opsiynau rhatach megis cylchlythyrau cymunedol neu gylchgronau rhestrau lleol hefyd fod allan o gyrraedd.

2.85 Fodd bynnag, mae'n bosibl fod amrywiaeth o sianelau sy'n perthyn i'r awdurdod lleol ar gael i chi. Pan fydd angen i'r hysbyseb gael ei hargraffu neu ei hatgynhyrchu ar gyfer y cyfrwng, gall y costau barhau i fod yn sylweddol.

2.86 Fel rhan o gadw eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd dan adolygiad, dylech gynnal archwiliad o'r cyfryngau posibl yr ydych yn berchen arnynt, mapio pwy y mae'r cyfryngau hyn yn eu cyrraedd, a dewis y cyfuniad o opsiynau sydd yn y sefyllfa orau i gyrraedd eich cynulleidfaoedd targed penodol. Efallai eich bod eisoes wedi cwblhau archwiliad o'r fath, ac os felly dylech sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol a gwirio am unrhyw newidiadau ers iddo gael ei gynnal ddiwethaf.

### **Cyfryngau posibl rydych yn berchen arnynt**

2.87 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gyfryngau y gallech fod yn berchen arnynt:

---

<sup>4</sup> Gallwch ddarllen yr adroddiad profi negeseuon ar ein [gwefan](#)

- Cylchgrawn preswylwyr awdurdod lleol
- Cylchlythyrau staff mewnol
- Cerbydau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol
- Safleoedd poster sy'n eiddo i'r awdurdod lleol
- Adeiladau awdurdodau lleol
- Arosfannau bus a byrddau posteri
- Hysbysfyrddau

2.88 Dylech hefyd ddefnyddio gwefan eich awdurdod lleol eich hun fel sianel cyfryngau cost-isel ychwanegol. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, dylech sicrhau bod eich cynnwys gwe wedi ei ddiweddarau ac yn cynnwys dolenni i wefannau allanol ar dudalennau allweddol, megis [www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio](http://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio) a [www.dybleidlaisdi.co.uk](http://www.dybleidlaisdi.co.uk).

2.89 Wrth ddewis pa gyfryngau i'w defnyddio, dylech ystyried y canlynol:

- Cyrhaeddiad – y nifer o bobl a fyddai'n agored i'r gweithgarwch. Dylech hefyd ystyried y nifer o bobl *berthnasol* a fyddai'n agored iddo o ran unrhyw gynulleidfa darged y bwriedir i'r gweithgarwch eu cyrraedd.
- Amllder – y nifer o weithiau y byddai pobl yn dod i gysylltiad â'r gweithgarwch.

2.90 Er enghraifft, gallech amcangyfrif cyrhaeddiad ac amllder poster yn ystafell aros meddyg.

### **Defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

2.91 Mae sianelau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter, YouTube, Google+ ac eraill yn rhoi cyfle rhad i godi ymwybyddiaeth a gall fod yn fecanwaith ar gyfer ymateb i ymholiadau cyhoeddus. Gall defnyddio eich sianelau cyfryngau cymdeithasol awdurdodau lleol eich hunain fod yn ddefnyddiol yn enwedig i hysbysu rhanddeiliaid a allai drosglwyddo eich negeseuon i'w cysylltiadau.

2.92 Drwy wneud y negeseuon yr ydych yn eu postio'n ddiddorol, doniol, taer neu'n ddeniadol, maent yn fwy tebygol o gael eu nodi a'u trosglwyddo rhwng defnyddwyr, a thrwy hynny gyrraedd cynulleidfa ehangach. Dylai postiadau gael eu gwneud ar adegau allweddol, er enghraifft, ar ddechrau'r canfas, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl.

2.93 Gallech hefyd feddwl am sut y gallai digwyddiadau allanol ddarparu bachyn ar gyfer gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, luniodd y Comisiwn gyfres o drydariadau (tweets) thema Sant Ffolant ar gofrestru etholiadol ar 14 Chwefror. Er mwyn sicrhau'r cyrhaeddiad gorau, mae angen gwneud gwaith hyrwyddo parhaus i adeiladu'r niferoedd sy'n defnyddio eich sianelau cyfryngau cymdeithasol.

2.94 Gall cyfryngau cymdeithasol hefyd roi cyfle i chi weld ar unwaith beth yw effaith eich gwaith. Er enghraifft, gallwch fonitro faint o weithiau mae post ar Facebook yn cael ei hoffi neu ei rannu, neu pa mor aml mae trydariad yn cael ei ail-drydaru.

2.95 Mae gan gyfryngau cymdeithasol eu cyfyngiadau - er enghraifft, gall y gynulleidfa gyhoeddus ar gyfer eich sianelau cyfryngau cymdeithasol eich hun fod wedi'u cyfyngu mewn sawl achos i'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â'r awdurdod lleol, a hyd yn oed lle mae'r gynulleidfa yn ehangach, efallai nad oes gan rai grwpiau lawer o ddiddordeb mewn clywed negeseuon sy'n dod oddi wrth unrhyw un heblaw eu cysylltiadau ar-lein.

### **Marchnata stryd**

2.96 Mae marchnata stryd yn cynnwys recriwtio staff neu wirfoddolwyr i wneud cyswllt wyneb-yn-wyneb â phobl, er enghraifft mewn digwyddiad fel sioe ffordd neu stondin mewn canolfan siopa. Gall fod yn arf defnyddiol ar gyfer targedu grwpiau sydd wedi'u tan-gofrestru gan y gellir dod â'r wybodaeth atynt, yn hytrach na disgwyl iddynt wneud cais amdani.

2.97 Oherwydd gofynnir am ymateb yn syth, gall ffurflenni gael eu casglu yn y fan a'r lle, gan wneud y broses o gofrestru ymddangos yn llawer haws. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ofyn am unrhyw beth nad ydynt yn ei ddeall. Gallech hefyd ddarparu posteri a thafenni i dynnu sylw at y gwirfoddolwyr.

### **Darparu nodiadau atgoffa yn y lleoliadau lle gall preswylwyr gofrestru yn syth**

2.98 Dangoswyd bod unigolyn yn fwy tebygol o gymryd y camau y gofynnir iddynt eu cymryd os gallant wneud hynny ar unwaith. Mae'r tebygolrwydd o weithredu'n gostwng dros gyfnod o amser. Meddylwch am y lleoliadau sy'n rhoi cyfle i bobl gofrestru yn y fan a'r lle – gall darparu gwybodaeth yn y pwyntiau hynny gael mwy o ddylanwad ar bobl sy'n cymryd y cam i gofrestru.

2.99 Er enghraifft, efallai yr hoffech arddangos nodiadau atgoffa ar gyfrifiaduron y llyfrgell, mewn clybiau swyddi lle darperir cyfrifiaduron ar gyfer ysgrifennu CVs, neu mewn dosbarthiadau sgiliau cyfrifiadurol rhad ac am ddim.

### **Prynu cyfryngau (hysbysebu y telir amdano)**

2.100 Os ydych yn talu am ofod hysbysebu – neu'n cyfuno cyllidebau gydag awdurdodau lleol eraill i brynu gofod hysbysebu sy'n fuddiol i'r ddwy ochr - dylech ystyried y ffactorau yn y blwch isod

#### **Ffactorau sy'n hanfodol wrth ddewis cyfryngau**

- **Cyfanswm cyrhaeddiad** – y nifer o bobl y disgwylir iddynt fod yn agored i neges hysbysebwr o leiaf unwaith mewn amser penodol.
- **Amllder** – y nifer o weithiau y mae aelod o'r gynulleidfa yn agored i'r neges yn yr amser penodedig.
- **Cost** – Y gost o gyrraedd mil o bobl (CPT) neu o gyrraedd eich marchnad darged (CPT-TM).

#### **Sianelau a phwy y maent yn eu cyrraedd**

- **Radio** – yn cyrraedd preswylwyr incwm is ac oedolion ifanc, yn ogystal â'r rhai mewn ardaloedd mwy gwledig; gall gorsafoedd priodol gyrraedd cynulleidfa haenedig.
- **Ar-lein** – yn llai defnyddiol ar gyfer aelwydydd incwm is; yn cyrraedd pobl ifanc o dan 24 oed a myfyrwyr yn enwedig trwy gyfryngau cymdeithasol. Y dewis gorau ar gyfer targedu grwpiau penodol.

- **Papur newydd** – potensial i gyrraedd incymau is, yn enwedig mewn rhai teitlau.
- **Cylchgronau/newyddlen** – targedu ardaloedd lleol penodol neu grwpiau cymunedol penodol.
- **Hysbysebion** (erthyglau hyrwyddo) ar gyfer y wasg leol a gwefannau - gellid eu defnyddio i gario gwybodaeth fwy manwl.
- **Awyr agored** – defnyddiol i gyrraedd cynulleidfaoedd targed drwy leoli mewn ardaloedd gyda dwysedd uchel lle mae pobl yn pasio heibio; potensial i gyrraedd myfyrwyr; gall hysbysfyrddau a bysiau arwain at amllder uchel o gipolygon.
- **Faniau hysbysebu symudol** – yn gallu cyflwyno negeseuon i ardaloedd daearyddol gyda dwysedd uchel o'ch cynulleidfa darged.
- **Nawdd i ddigwyddiad** – potensial i gyrraedd pobl ifanc a BME.

### **Cynllunio i brynu cyfryngau**

Efallai y byddwch yn prynu safleoedd unigol gan berchnogion cyfryngau neu os oes gennych gyllideb mwy o faint efallai y byddwch yn gweithio gydag asiantaeth prynu cyfryngau sydd yn y sefyllfa orau i ddewis y cyfryngau gorau i gwrdd â'ch amcanion a chyrraedd eich cynulleidfaoedd targed.

Fel arfer, mae'r cyfryngau yn cael eu prynu yn yr wythnosau a'r misoedd cyn yr amser pan fo'r ymgyrch i fod i fynd yn fyw, ond bydd angen i chi gynnal sgwrsiau'n gynnar er mwyn sefydlu'r terfynau amser ar gyfer prynu cyfryngau hysbysebu, ac ar gyfer cyflenwi gwaith celf. Hefyd mae'n debygol y bydd gofynion technegol ar gyfer cyflenwi'r gwaith celf.

### **Beth i'w ystyried wrth brynu cyfryngau**

- Ystyriwch sut yr ydych yn bwriadu gwario ar eich cyfryngau drwy sefydlu cyrhaeddiad ac amllder. Gall fod yn well cael llai o hysbysebion ar orsaf radio fwy, na llawer o hysbysebion ar orsaf radio fach.
- A yw ymgyrch cyrhaeddiad uchel mewn papur newydd lleol sy'n rhedeg am un diwrnod yn well nag ymgyrch cyrhaeddiad isel mewn cylchgrawn cymunedol sy'n para mis? Dim ond am ei fod yn para mwy, nid yw'n golygu y bydd pobl yn ei ddarllen fwy nag unwaith.
- Meddyliwch am y gynulleidfa cyn derbyn unrhyw gynigion arbennig gan berchnogion cyfryngau. Gofynnwch pam fod y pris yn cael ei ostwng - efallai nad oes gan y gofod dan sylw allu profedig i gyrraedd eich cynulleidfa.

### **Cael eraill i ledaenu'r neges (cyfryngau a enillwyd)**

2.101 Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth trwy hysbysebu, bydd tebygolrwydd y bydd pobl yn cofrestru yn cael ei effeithio gan y negeseuon y maent yn eu clywed yn y wasg a'r cyfryngau newyddion. Mae gweithgarwch cysylltiadau cyfryngau yn rhoi cyfle i gael eich neges ar yr agenda newyddion a chodi proffil.

2.102 Trwy fynd ati i weithio gyda'r cyfryngau byddwch hefyd yn cael mwy o ddylanwad ar y mathau o negeseuon sy'n cael eu cyfleu. Efallai na fyddwch yn gallu rheoli barn y cyhoedd ond gallwch gyflenwi negeseuon sy'n fwy tebygol o dawelu meddwl pobl a lleihau'r potensial am sylw negyddol a allai atal pobl rhag cofrestru. Gall gweithgarwch o'r fath gynnwys:

- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg cyn pwyntiau allweddol, megis dechrau'r canfas blynyddol
- Sicrhau fod llefarydd wedi'i baratoi'n dda ar gael i roi cyfweiliadau radio a theledu
- Cynnal digwyddiadau sy'n cynhyrchu cyhoedduswydd

### **Gweithgarwch cyhoedduswydd**

2.103 Gall gweithgarwch cyhoedduswydd helpu i ennyn diddordeb y wasg a'r cyhoedd. Gallech ystyried cynnal digwyddiad neu groesawu siaradwr a fyddai'n rhoi hwb i ymwybyddiaeth. Gall gweithgarwch gwahanol mewn digwyddiadau cymunedol sy'n bodoli eisoes dynnu sylw, a gallwch eu hyrwyddo ymlaen llaw. Efallai yr hoffech siarad ag awdurdodau lleol eraill am ddulliau y maent wedi eu canfod sy'n llwyddiannus. Drwy hysbysu'r wasg cyn y digwyddiad, gallwch ddenu eu presenoldeb, a sicrhau sylw pellach gan y cyfryngau.

### **Hygyrchedd ac effaith**

2.104 Wrth gynhyrchu eich deunyddiau cyfathrebu eich hun mae angen i chi sicrhau eu bod yn glir ac yn hygyrch, yn pwysleisio negeseuon allweddol a'u bod wedi eu gosod allan mewn modd sy'n sicrhau eglurder ac effaith. Mae gan ysgrifennu clir a chryno gyfle llawer uwch o gyrraedd cymaint o bobl â phosibl a sicrhau y bydd y derbynydd yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud.

2.105 Mae cyfathrebu a ystyriwyd yn ofalus, ac sy'n darparu gwybodaeth yn y ffordd y mae'r darlennydd yn awyddus i'w derbyn, yn fwy tebygol o gael mwy o effaith ar gynulleidfa ehangach, p'un a ydynt yn weithwyr proffesiynol prysur, pobl ifanc wedi ymddieithrio, neu breswylwyr sydd â lefelau llythrennedd is.

2.106 Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, mae'n werth canfod a oes rhywun yn eich awdurdod lleol sydd ag arbenigedd mewn ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd, Cymraeg/Saesneg clir, neu hygyrchedd gwefannau, neu gallech ymgymryd â hyfforddiant perthnasol lle bo hynny'n bosibl.

### **Galwadau i weithredu**

2.107 Ar gyfer y cyfathrebu rydych yn ei gynhyrchu sydd â'r nod o gael pobl i wneud rhywbeth, mae 'galwad i weithredu' bendant yn hanfodol i lwyddiant. Y cyfan yw 'galwad i weithredu' yw datganiad sy'n nodi'r hyn yr ydych am i'r gynulleidfa ei wneud nesaf - er enghraifft, 'cofrestru ar-lein'. Heb yr alwad hon, ni fydd pobl yn deall yr hyn y dylent ei wneud, ac os yw'r neges yn aneglur neu wedi ei chladdu yng nghanol gwybodaeth arall, efallai'n wir y caiff ei hanwybyddu.

2.108 Dylai galwadau i weithredu:

- Fod wedi'u hysgrifennu'n gryno a dweud yn glir wrth bobl beth i'w wneud
- Defnyddio iaith weithredol (mae 'Ewch i [www.bigtown.org.uk](http://www.bigtown.org.uk) am fwy o wybodaeth' yn well na 'gall partion â diddordeb ddod o hyd i fanylion pellach perthnasol ar wefan y Cyngor')
- Fod yn amlwg iawn yn y ddogfen - er enghraifft, mewn testun mwy o faint, lliw gwahanol, a gyda digon o le o'u cwmpas i dynnu sylw pobl atynt

## Rhoi hysbysrwydd i fanylion cyswllt

2.109 Ni fydd pawb yn deall y cyfathrebu, a bydd angen rhagor o gymorth neu sicrwydd i rai pobl, felly dylid cynnwys manylion cyswllt ble y gall y darllenydd gael help.



Am ragor o wybodaeth, gweler ein [taflen ffeithiau ar gynhyrchu cyfathrebu hygrych](#).

## Cam 4: Parhau i nodi a mireinio tactegau i gyrraedd eich cynulleidfa darged leol

2.110 Bydd eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn nodi grwpiau targed lleol a manylion sut y gellir cyrraedd y grwpiau hyn. Efallai y bydd angen amrywiaeth o ddulliau sy'n defnyddio'r gwahanol sianelau a amlinellir uchod, megis cyswllt uniongyrchol, hysbysebu a gweithio gyda phartneriaid.

2.111 Mae'n bwysig eich bod yn monitro ac yn gwerthuso llwyddiant eich tactegau i ennyn diddordeb eich grwpiau targed ac ystyried beth sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd wedi bod yn llai llwyddiannus:

- Pa mor effeithiol oedd eich tactegau yn ystod y canfas diwethaf, mewn etholiadau a drefnwyd, ac yn eich gweithgarwch parhaus i facsimeiddio cofrestru?
- A wnaethoch chi gyrraedd eich cynulleidfa darged?
- Beth allwch chi ei ddysgu o'ch profiadau i fireinio eich dull o weithredu, neu a oes angen i chi ddefnyddio dull sy'n sylweddol wahanol?

Mae ein hymchwil wedi dangos bod cofrestru pobl ifanc, ac, yn benodol cyrhaeddwy'r yn parhau i fod yn her i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac nad yw cyrhaeddwy'r newydd yn cael eu hychwanegu ar yr un gyfradd ac mewn blynyddoedd blaenorol. Felly, dylai gweithio gydag ysgolion a cholegau yn eich ardal i dargedu'r etholwyr posibl hyn fod yn faes allweddol o'ch gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

2.112 Gallai fod yn ddefnyddiol cysylltu ag awdurdodau eraill gyda grwpiau targed tebyg er mwyn rhannu profiadau a deall beth sydd wedi gweithio iddynt hwy'n ymarferol. Mae hefyd yn hanfodol eich bod yn parhau i adolygu demograffeg eich ardal gofrestru a nodi unrhyw grwpiau pellach sydd wedi eu tan-gofrestru. I gael gwybodaeth bellach ar fonitro a gwerthuso eich gweithgarwch, gweler cam 5 isod.

2.113 Gweler isod enghreifftiau o gynulleidfaoedd targed a chyfleoedd i'w cyrraedd:

## Tabl o gynulleidfaoedd


Cynulleidfa	Heriau	Cyfleoedd i'w cyrraedd
Wedi cofrestru	<p>Angen ymateb i'r canfas blynyddol</p> <p>Angen gwybod i ddiweddarau manylion os byddant yn newid</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ffurflenni Ymholiad y Cartref</li> <li>- Llythyron hysbysu'r cartref</li> <li>- Gwybodaeth i'r cyhoedd drwy sianelau cynulleidfa ehangach megis gwefan yr awdurdod lleol, cylchgrawn a negeseuon eraill</li> <li>- Hysbysebion codi ymwybyddiaeth Lleol</li> <li>- Gwaith cyfryngau lleol</li> </ul>
Heb gofrestru, gan gynnwys grwpiau sy'n nodweddiadol wedi'u tan-gofrestru a grwpiau anos eu cyrraedd	Rhwystrau fel preswylad dros dro, diffyg ymwybyddiaeth o hawliau, ymddieithrio, neu anhawster gyda chofrestru	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru</li> <li>- Dilyn i fyny gyda chyswllt uniongyrchol (e.e. llythyrau, galwadau ffôn, canfas o dŷ i dŷ/ ymweliadau personol))</li> <li>- Llythyron hysbysu'r cartref</li> <li>- Gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu, gan gynnwys cyswllt uniongyrchol, darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, hysbysebu, a gweithio gyda sefydliadau partner</li> </ul>




<b>Demograffig</b>	<b>Heriau</b>	<b>Cyfleoedd i'w cyrraedd</b>
Pobl ifanc	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn cael eu cyrraedd gan gyfryngau traddodiadol</li> <li>- Ddim yn gwybod am yr angen i gofrestru</li> <li>- Dibynnu ar ddylanwadau teuluol</li> <li>- Wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth</li> <li>- Diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdod</li> <li>- Blaenoriaethau eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cael eu dylanwadu gan gyfoedion</li> <li>- Defnyddwyr uchel o gyfryngau cymdeithasol</li> <li>- Defnyddwyr uchel o ffonau smart a negeseuon testun</li> <li>- Cofrestru a gwybodaeth ar-lein</li> <li>- Cyfle i ddylanwadu ar y teulu</li> </ul>
Myfyrwyr	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byrharhosol iawn</li> <li>- Ymddieithrio o waith papur a phost</li> <li>- Blaenoriaethau a phethau eraill yn cymryd eu sylw</li> <li>- Heb arfer cofrestru eu hunain</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sefydliad yn gofyn iddynt gwblhau gwaith papur</li> <li>- Wedi clystyru mewn neuaddau preswyl neu 'ardaloedd myfyrwyr' y dref</li> <li>- Potensial i gael eu cymell</li> <li>- Defnyddwyr uchel cyfryngau cymdeithasol</li> </ul>
Cyrhaeddwyr oedran	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn gwybod am yr angen i gofrestru</li> <li>- Dibynnu ar ddylanwadau teuluol</li> <li>- Wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth</li> <li>- Blaenoriaethau eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Llauer yn yr ysgol, coleg neu hyfforddiant sy'n darparu sianelau cyfathrebu posibl</li> <li>- Cofrestru ar-lein</li> <li>- Defnyddwyr uchel o ffonau smart a negeseuon testun</li> <li>- Defnyddwyr uchel o gyfryngau cymdeithasol</li> <li>- Cael eu dylanwadu gan gyfoedion</li> </ul>
Symudwyr tŷ	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn gwybod am yr angen i ailgofrestru</li> <li>- Ddim yn flaenoriaeth</li> <li>- Efallai heb dderbyn post</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Partneriaid helpu i ledaenu negeseuon</li> </ul>
Poblogaeth symudol, rhentwyr preifat a phreswyliaid cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn gwybod am yr angen i gofrestru/newid manylion</li> <li>- Wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth</li> <li>- Blaenoriaethau eraill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Partneriaid helpu i ledaenu negeseuon</li> </ul>

<b>Demograffig</b>	<b>Heriau</b>	<b>Cyfleoedd i'w cyrraedd</b>
Poblogaeth ddu a lleiafrifoedd ethnig sy'n dan-gofrestredig	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth</li> <li>- Preswylwyr newydd efallai ddim yn ymwybodol o hawliau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Partneriaid helpu i ledaenu negeseuon</li> <li>- Hysbysebu lleol mewn lleoliadau gyda dwysedd uwch o boblogaeth darged</li> </ul>
Pobl ag anableddau a gofynion cyfathrebu penodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Methu cael mynediad i gyfathrebu prif ffrwd</li> <li>- Efallai y bydd rhai yn dibynnu ar ofalwyr i dderbyn a dychwelyd post</li> <li>- Efallai y byddant angen help i lenwi ffurflenni</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Angen cynhyrchu cyfathrebiadau hygyrch</li> <li>- Defnyddwyr uchel o ddarparwyr gwasanaeth sy'n darparu sianelau cyfathrebu posibl</li> <li>- Potensial i gyrraedd gofalwyr a'r rhai sydd â dylanwad arnynt</li> </ul>
Pobl dros 80 oed	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Defnydd isel iawn o'r rhyngrwyd</li> <li>- Anhawster cyrraedd y blwch post</li> <li>- Gallant fod yn dibynnu ar ofalwyr i dderbyn a dychwelyd post</li> <li>- Efallai y byddant angen help i lenwi ffurflenni</li> <li>- Llai agored i hysbysebion awyr agored</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Defnyddwyr uchel o ddarparwyr gwasanaeth sy'n darparu sianelau cyfathrebu posibl</li> <li>- Potensial i gyrraedd gofalwyr a'r rhai sydd â dylanwad arnynt</li> </ul>
Aelwydydd sydd wedi ymddieithrio, pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Wedi ymddieithrio o wleidyddiaeth</li> <li>- Diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdod</li> <li>- Anhawster llenwi ffurflenni</li> <li>- Ddim yn ymwneud â sefydliadau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Defnyddwyr uchel o rai gwasanaethau sy'n darparu sianelau cyfathrebu posibl</li> <li>- Cael eu dylanwadu gan gyfoedion</li> <li>- Potensial i gael eu cymell</li> </ul>
Lefel isel o lythrennedd neu ddealltwriaeth o Saesneg (neu, yng Nghymru, Saesneg neu Gymraeg)	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ddim yn gwybod am hawliau</li> <li>- Anhawster llenwi ffurflenni</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill</li> <li>- Partneriaid helpu i ledaenu negeseuon a rhoi cymorth i lenwi ffurflenni</li> <li>- Gwybodaeth mewn cyfryngau ieithoedd byd</li> </ul>

Demograffig	Heriau	Cyfleoedd i'w cyrraedd
Y digartref a theithwyr	- Anhawster cael a llenwi ffurflenni	- Partneriaid helpu i ledaenu negeseuon a rhoi cymorth i lenwi ffurflenni
Preswylwyr mewn ardaloedd gwledig iawn	- Llai o gyswllt â gwasanaethau canolog - Llai agored i hysbysebion awyr agored	- Partneriaeth gyda grwpiau cymunedol - Cyfathrebiadau gwledig - Dibynnu ar amrywiaeth gyfyngedig o wasanaethau

 Rydym wedi datblygu [taflenni enghreifftiol tactegau ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd targed](#) sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol, fel myfyrwyr a phobl ifanc (o dan 35) sy'n dal i fod gryn dipyn yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru. Gall yr adnoddau hyn gefnogi eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd a'ch helpu i barhau i dargedu grwpiau sy'n nodweddiadol wedi'u tan-gofrestru

 **Rhannu arfer da**  
Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn cysylltiad â phrifysgolion yn eu hardal i gynnwys cofrestru etholiadol ym mhroses cofrestru myfyrwyr. Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau ar sut mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn annog myfyrwyr i gofrestru yn ein hadnodd ['Cyrraedd myfyrwyr'](#).

## Cam 5: Monitro a gwerthuso parhaus

2.114 Er ei fod wedi'u restru fel cam 5, dylid monitro cynnydd a gwerthuso drwy gydol eich gweithgarwch. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn ddogfen sy'n esblygu'n barhaus, ac sy'n adlewyrchu eich profiadau ac unrhyw anghenion newidiol yn eich ardal gofrestru.

### Pam fod angen i chi fonitro a gwerthuso

2.115 Dylech fonitro cyflenwad eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, yn ogystal â chynnal gwerthusiad ar ddiwedd pob cyfnod allweddol er mwyn sicrhau bod eich gweithgarwch yn effeithiol ac yn parhau'n briodol. Bydd angen diweddarau eich strategaeth ymgysylltu a chynllun cofrestru i adlewyrchu canfyddiadau eich monitro a gwerthuso.

2.116 Dylai eich strategaeth amlinellu sut yr ydych yn bwriadu monitro a gwerthuso llwyddiant eich gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae gwerthusiadau yn hanfodol i fesur effeithiolrwyddd prosiect a dangos cyflawniadau. Bydd tystiolaeth a gesglir drwy'r broses o fonitro a gwerthuso yn eich helpu i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch gweithgarwch er mwyn helpu targedu eich adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

## Cynllunio monitro a gwerthuso

2.117 Yn ystod cam cynllunio eich gweithgarwch, mae'n bwysig nodi mecanwaith ar gyfer monitro llwyddiant a diffinio'r cwestiynau sydd angen eu trin trwy werthusiad a sut y gall y cwestiynau hyn gael eu hateb.

2.118 Er mwyn gwerthuso llwyddiant gweithgarwch, mae'n bwysig cael amcanion clir. Wrth adolygu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd dylech gadw amcanion pob gweithgarwch mewn cof a dylai'r rhain fod mor fesuradwy â phosibl. Dylai'r mesurau gwerthuso a ddefnyddiwch gyfeirio'n ôl yn glir at yr amcanion cychwynnol.

2.119 Efallai na fyddwch yn gallu gwerthuso popeth mor fanwl ag y byddech yn ei ddymuno, ond mae amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio ([gweler isod](#)) i asesu pa mor effeithiol yw eich gweithgarwch. Mae'n bwysig cynnal gwerthusiad mor helaeth â phosibl fel y gallwch wneud y defnydd gorau o'ch adnoddau. Dylech nodi unrhyw gyfyngiadau i'r gwerthusiad yn eich cynlluniau, gan gynnwys unrhyw risgiau posibl i ddibynadwyedd a dilysrwydd y cynllun gwerthuso a'r canfyddiadau sy'n deillio ohono.

2.120 Mae angen i'r cynllun gwerthuso nodi pwy fydd yn cymryd rhan yn y gwerthusiad. Dylai hefyd benderfynu pwy sy'n mynd i fod yn gyfrifol am y gwahanol rannau o'r gwerthusiad. Dylai eich cynllun gynnwys manylion am weithrediad y strategaeth ymgysylltu, gan gynnwys gwerthuso effaith y strategaeth. Dylid hefyd ystyried yr adnoddau a ddyrennir i werthuso prosiect penodol. Ni ellir cael cyfrif boddhaol o effeithiolrwydd y prosiect heb werthusiad, ond dylai cost y gwerthusiad fod yn gymesur â chost y prosiect.

2.121 Dylai'r cynllun hefyd nodi rhanddeiliaid perthnasol, megis awdurdodau lleol eraill, a allai fod â diddordeb yn y gwerthusiad, a phwy y dylid rhannu'r canfyddiadau â hwy.

## Mesurau gwerthuso sydd ar gael

2.122 Dylid defnyddio cymysgedd o ddangosyddion, gyda rhai ohonynt efallai'n seiliedig ar ymddygiad (yr hyn y mae pobl wedi'i wneud, yr hyn sydd wedi digwydd mewn gwirionedd) a rhai a allai fod yn seiliedig ar ganfyddiad (yr hyn y mae pobl yn credu iddo ddigwydd).

2.123 Wrth fesur llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd mae angen ystyried:

- Cyrhaeddiad - y nifer o bobl a fyddai wedi bod yn agored i'r gweithgarwch. Dylech hefyd ystyried y nifer o bobl *berthnasol* sydd wedi bod yn agored iddo o ran unrhyw gynulleidfa darged y bwriedir i'r gweithgarwch eu cyrraedd.
- Amllder – y nifer o weithiau mae pobl wedi bod yn agored i'r gweithgarwch
- P'un a fu cynnydd yn y nifer o bobl sy'n cymryd camau, megis cofrestru i bleidleisio
- P'un a gafwyd adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr mewn cynllun
- P'un a yw dealltwriaeth pobl o'r broses wedi cynyddu
- P'un a fu cynnydd yn nifer y ceisiadau am wybodaeth

2.124 Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio i werthuso prosiect. Yn ystod y cam cynllunio, mae'n bwysig meddwl am y dulliau mwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer gwerthuso.

2.125 Mae'r canlynol yn rhai mecanweithiau ar gyfer casglu tystiolaeth i gefnogi eich gwerthusiad:

- Cofnodi adborth gan y cyhoedd mewn digwyddiadau neu drwy eich gwefan
- Cofnodi lefel yr ymatebion o ganlyniad i'r gweithgarwch
- Cofnodi nifer yr ymholiadau am y pwnc
- Cofnodi nifer yr ymweliadau â'r wefan yn gofyn am wybodaeth
- Cofnodi unrhyw adborth a ddarparwyd ar gyfryngau cymdeithasol
- Dosbarthu holiaduron gwerthuso neu ffurflenni adborth ar ddiwedd y digwyddiad
- Cynnal arolwg barn gyhoeddus i benderfynu a oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'ch gweithgarwch, beth oeddynt yn feddwl ohono, ac a wnaethant gymryd camau gweithredu o ganlyniad
- Cynnal arolygon cyn-weithgaredd ac ôl-weithgaredd i benderfynu p'un a oedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth pobl o gofrestru a'r broses wedi cynyddu o ganlyniad i'r gweithgarwch
- Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid i benderfynu beth oedd eu barn am y gweithgarwch
- Cynnal grwpiau ffocws gyda phreswylwyr i gasglu adborth - o bosibl fel rhan o ddigwyddiadau eraill

2.126 Fel bod eich gwerthusiad mor gywir â phosibl, mae hefyd yn bwysig ceisio mesur:

- Ffactorau amgylcheddol neu 'sŵn cefndir': i ba raddau y cafwyd mwy o gyfranogiad o ganlyniad i'ch gweithgarwch, neu a oedd hynny oherwydd rhyw ffactorau eraill?
- Yr achos sylfaenol: h.y. beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y gweithgarwch?



I allu cyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi roi mesurau monitro a gwerthuso ar waith i wneud yn siŵr bod pob gweithgarwch mor effeithiol â phosibl. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth cynllunio prosiect gynnwys yr amcanion a'r mesurau llwyddiant i'w defnyddio i fesur effaith y gweithgarwch a'r mesurau gwerthuso sydd gyda chi yn eu lle ar gyfer pob gweithgarwch.

# 3 Eich cynllun cofrestru a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd

## Pam bod cael cynllun cofrestru yn bwysig

3.1 Er mwyn cyflenwi'n effeithiol wasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda, bydd angen i chi fod â dogfennau cynllunio prosiect cadarn sydd wedi'i hysbysu gan ddealltwriaeth glir o'r heriau cofrestru yn eich ardal.

3.2 Bydd strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn eich helpu i nodi'r heriau a'r ymdriniaeth gyffredinol i fynd i'r afael â nhw. Dylai eich cynllun cofrestru gael ei hysbysu ganddo a dal popeth sydd angen ei wneud i gynhyrchu cofrestrau etholiadol sydd mod gywir a chyflawn â phosibl – nid drwy gydol cyfnod y canfas yn unig, ond trwy gydol y flwyddyn.

3.3 Yn benodol dylai eich cynlluniau prosiect gynnwys manylion sut fyddwch yn ymgysylltu â thrigolion yn eich ardal, gan gynnwys anfon ffurflenni a llythyrau, cyswllt uniongyrchol wyneb-yn-wyneb gan ganfaswyr, yn ogystal â gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd lleol, fel hysbysebu a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol. Gweler hefyd paragraff **3.6** am fanylion beth ddylai gynnwys.

3.4 Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cadw systemau yn eu lle a fydd yn eich galluogi i olrhain eich cynnydd tuag at sicrhau bod cymaint o breswylwyr cymwys ag y bo modd wedi'u cynnwys ar y gofrestr. Bydd hyn yn cynnwys prosesau i olrhain ymatebion gan unigolion a chartrefi i ganiatáu i chi fonitro a gwerthuso cynnydd, ac i'ch helpu i dargedu adnoddau yn briodol a nodi ble mae angen diwygiadau i'ch cynlluniau.

3.5 I liniaru unrhyw risgiau, bydd angen i chi hefyd gynnal cofrestr risg a materion, gan nodi unrhyw risgiau i gyflenwad effeithiol eich cynllun cofrestru a chamau liniaru cyfatebol.



I gyflawni'r canlyniadau yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gwerthuso ac yn diweddarau eich cynllun cofrestru fel sy'n briodol i gyflawni eich strategaeth. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi eu bodloni, dylech ddiweddarau eich dogfennaeth cynllunio prosiect, gan gynnwys cofrestr risg, a dylai gynnwys:

- Amcanion a mesurau llwyddiant i'w defnyddio i fonitro effaith gweithgarwch
- Gofynion adnoddau'r gweithgarwch yr ydych yn bwriadu ei gynnal
- Amserlen o'r canlyniadau a'r tasgau ar gyfer gweithgarwch gydol y flwyddyn
- Y gweithgarwch partneriaeth yr ydych wedi'i gynllunio
- Y mesurau gwerthuso sydd yn eu lle ar gyfer pob gweithgarwch a gynhelir



Rydym wedi cynhyrchu [templed cynllun cofrestru](#) y gallwch ei ddefnyddio i gefnogi eich cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau cofrestru etholiadol a gynhelir yn dda. Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r templed a ddarparwyd gennym, ond pa bynnag ffurf y mae eich cynllun yn ei gymryd, dylech sicrhau ei fod yn dal yr holl waith y bydd angen i chi ymgymryd ag ef drwy gydol y canfas a thrwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys y cyfnod yn arwain i fyny at etholiadau sydd wedi'u trefnu eisoes, gan gynnwys sut y byddwch yn gweithredu'r camau a nodwyd yn eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol. Ar y lleiaf, dylai eich cynllun cofrestru ymdrin â'r meysydd a gynhwysir ym mharagraff **3.6** isod.

Dylai eich dogfennau cynllunio gael eu gosod allan mewn ffordd sy'n cyfleu:

- amcanion a mesurau llwyddiant
- gofynion adnoddau
- cyflawniadau a thasgau allweddol, gyda dyddiadau dechrau a gorffen, yn ogystal â pherchnogion
- dibyniaethau a phartneriaid perthnasol
- mecanweithiau ar gyfer olrhain a gwerthuso cynnydd ac ar gyfer cofnodi newidiadau i'r cynllun

Dylech hefyd gynnwys y risgiau sydd angen eu rheoli er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol o'ch cynllun cofrestru. Rydym wedi datblygu [templed cofrestr risg a materion](#) sy'n cynnwys enghreifftiau o risgiau y bydd angen i chi eu hystyried ac, os oes angen, eu lliniaru, yn ogystal â chofnod i gofnodi unrhyw faterion sydd wedi dod i'r amlwg ac y bydd angen i chi ymdrin â hwy. Gallwch ddefnyddio ein templed cofrestr risg a materion ar gyfer cofnodi eich holl risgiau; fel arall, efallai y byddwch eisieu cynnwys y risgiau enghreifftiol mewn unrhyw ddogfennaeth rheoli risg bresennol, yr ydych eisoes wedi ei datblygu.



Mae nifer o Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi nodi dulliau i gynorthwyo wrth reoli prosesau cofrestru. Ceir rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau o ddefnyddio dulliau rheoli yn ein hadnodd ['Rheoli prosesau cofrestru yn effeithiol'](#).

## Beth ddylai eich cynllun gweithredu ei gynnwys?

3.6 Dylai eich cynllun gweithredu adlewyrchu eich ymdriniaeth o ran y canfas ac o ran rheoli gweithgarwch cofrestru drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys eich gwaith parhaus o facsimeiddio cofrestru. Dylai eich cynllun gynnwys:

- Mekanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso eich cynnydd o ran darparu eich cynllunio a chofnodi diwygiadau
- Unigolion a phartneriaid allweddol fydd yn eich cefnogi i ddarparu eich cynllun cofrestru
- Nodi'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys adnabod gofynion staffio ac unrhyw drefniadau recriwtio angenrheidiol; rheoli contractwyr a chyflenwyr, gan gynnwys argraffwyr a chyflenwyr meddalwedd; a gofynion storio
- Adolygiad o brosesau mewnol i sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd, gan gynnwys diogelwch data personol a pha fesurau a sefydlwyd i sicrhau y rheolir diogelu data
- Nodi anghenion hyfforddi, gan ymgorffori ffynonellau allanol a mewnol o hyfforddiant
- Gweithredu'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys sut y bydd cysylltiad uniongyrchol ag etholwyr yn cael ei reoli
- Manylion o sut gynhelir y camau angenrheidiol fel y nodir yn Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Prosesau i nodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai fod yn arwydd o broblemau hygrededd posibl, gan gynnwys pa gamau i'w cymryd i ddelio ag unrhyw broblemau o'r fath

### **Mekanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso eich cynnydd**

3.7 Mae'n bwysig eich bod yn trin eich cynllun cofrestru a'ch strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd fel 'dogfennau byw' a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn briodol o hyd, gan ddefnyddio data sydd ar gael i fonitro cynnydd a nodi lle mae angen gwneud unrhyw ddiwygiadau. Mae paragraff **2.114** yn rhoi canllaw pellach ar adolygu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd.

### **Cefnogaeth i ddarparu eich cynllun cofrestru**

3.8 Dylech ystyried pa adrannau ac unigolion allweddol fydd angen i chi eu cynnwys megis:

- adran TG yr awdurdod lleol
- tîm cyllid yr awdurdod lleol
- deiliaid data
- swyddog diogelu data yn yr awdurdod lleol
- rheolwr y ganolfan alw/derbynfa'r awdurdod lleol
- y rheolwr cyfathrebu/cyfryngau yn yr awdurdod lleol (os oes un)
- rheolwr Adnoddau Dynol yr awdurdod lleol
- cynrychiolwyr o dimau awdurdodau lleol/unigolion a sefydliadau lleol sy'n gweithio gyda grwpiau tangofrestredig yn eich ardal, megis adrannau addysg lleol



3.9 Dylai'r cynllun ymdrin â sut y byddwch yn ymgysylltu â'r unigolion/adrannau hyn a pha mor aml y byddwch yn cwrdd â nhw. Bydd angen i chi ystyried hefyd:

- a ddylech chi'n bersonol gadeirio'r grŵp
- pwy ddylai fod yn rhan ohono
- beth fydd y cylch gorchwyl
- sut fydd camau gweithredu yn cael eu cofnodi a'u dwyn ymlaen

### **Nodi'r adnoddau angenrheidiol**

3.10 Bydd y strategaeth ymgysylltu, a fydd wedi cael ei hysbysu gan ganlyniadau'r arbrawf cadarnhad, yn nodi pa waith sydd angen i chi ei wneud i ymgysylltu â thrigolion yn eich ardal a pha adnoddau o ganlyniad y byddwch eu hangen i wneud hyn.

3.11 Dylech:

- Wirio fod eich tybiaethau adnoddau yn gadarn ac y bydd eich dyraniadau grant yn ddigon i dalu am y gweithgareddau yr ydych wedi nodi sydd angen eu cynnal.
- Adolygu eich strwythur staffio presennol o ganlyniad i'ch profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf i nodi p'un a ei fod yn briodol o hyd neu a oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau
- Adolygu eich rheolaeth o gontractwyr a chyflenwyr: sicrhau fod eich systemau TG ac argraffu yn parhau i fod yn effeithiol a bod yr offer cywir yn ei le. Dylech chi sicrhau bod gennych gytundeb neu gontract ar waith pan fyddwch yn defnyddio contractwr neu gyflenwr.
- Sicrhewch fod eich gofynion storio yn ddigonol a bod mesurau diogelwch priodol ar waith i ddiogelu data personol. Dylech adolygu'ch prosesau gyda chynghor oddi wrth eich swyddog diogelu data ac adrannau rheoli data/TG. Byddant yn gallu eich helpu i nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y data rydych yn ei ddala, boed ar bapur neu wedi'i storio'n electronig ar eich systemau. Bydd hefyd angen ichi gynnal polisi ar gadw dogfennau, a fydd yn helpu i ddangos eich bod yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau y caiff ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn dull tryloyw.



Mae Adran 7 'Defnyddio contractwyr a chyflenwyr' yn ein [hadnodd](#) ar Reoliad Amddiffyn Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Diogelu Data 2018 yn tynnu sylw at y gofyniad am gael cytundeb neu gontract ysgrifenedig pan fyddwch yn defnyddio prosesydd (h.y. contractwr neu gyflenwr), ynghyd â'r gofynion am benodi 'prosesydd'.

Mae Adran 5 'Cadw dogfennau' ac Adran 6 'Storio data' yn cynnwys rhagor o gyngor ar storio a chadw dogfennau a hefyd ar gynnal eich polisi cadw dogfennau, gan gynnwys yr hyn y dylai ei gynnwys..



I allu cyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi adolygu'r adnoddau sydd ar gael i chi, gan ystyried:

- y gweithgareddau sydd eu hangen a phwy sy'n cymryd perchnogaeth
- amserlenni ar gyfer cynnal y gweithgareddau
- cyfleoedd yn y calendr etholiadol i wneud y mwyaf o gofrestru

I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth cynllunio prosiect gynnwys gofynion adnoddau'r gweithgarwch yr ydych yn bwriadu ei gynnal.



Ar gyfer unrhyw gwestiynau o ran cyllido darparu IER, cysylltwch â Swyddfa'r Cabinet: [ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk](mailto:ierservice@digital.cabinet-office.gov.uk)

### Staffio

3.12 Dylech adolygu eich lefelau staffio o ganlyniad i'ch profiadau hyd yn hyn i sicrhau eu bod yn ddigonol o hyd. Lle nodwch fod angen recriwtio, bydd angen i chi ystyried faint o amser mae recriwtio yn ei gymryd a chynllunio'n briodol. Dylech gysylltu cyn gynted â phosibl â'ch cyswllt adnoddau dynol yn yr awdurdod lleol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'ch gofynion ac yn gallu rhoi'r cymorth angenrheidiol i chi.

### TG

3.13 Bydd gennych TG yn ei le eisoes i reoli'r broses gofrestru sy'n ofynnol. Dylech adolygu'r trefniadau ac ystyried beth, os unrhyw beth sydd angen ei adolygu i baratoi ar gyfer y canfas neu cyn etholiadau'r dyfodol.

### Argraffu

3.14 Dylech drafod y niferoedd o Ffurflenni Ymholiad y Cartref a Gwahoddiadau i Gofrestru yr ydych yn disgwyl y bydd eu hangen arnoch gyda'ch argraffwyr, gan ystyried eich profiadau yn ystod y canfas diwethaf.

3.15 Os ydych yn penderfynu argraffu yn fewnol neu os ydych yn defnyddio argraffwyr allanol, dylech fod yn fodlon y bydd eich argraffwyr yn gallu ymdopi gyda chymhlethdod a nifer y ffurflenni. Chi ddylai benderfynu beth sy'n gweithio orau i chi gan ystyried eich amgylchiadau lleol

3.16 Pan fyddwch yn penodi contractwr neu gyflenwr mae'n rhaid ichi sicrhau y gallant ddarparu digon o warantu y bodlonir gofynion diogelu data. Dylech sicrhau bod diogelu data'n rhan annatod o unrhyw ymarfer tendro (gan gofnodi'ch proses gwneud penderfyniadau) ac y bodlonir unrhyw gontractau a roddwyd.



Mae Adran 7 'Defnyddio contractwyr a chyflenwyr' y neid [hadnawdd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys gofynion penodol y mae'n rhaid i gytundeb ysgrifenedig eu cynnwys er mwyn bodloni gofynion deddfwriaeth digoelu data.



Mae fersiynau diwygiedig o'r Ffurflen Ymholiad y Cartref a'r Gwahoddiad i Gofrestru gwag ac wedi eu rhagargraffu a ffurflen cofrestru pleidleiswyr ar gael ar ein [gwefan](#), ynghyd â chanllawiau ar sut i'w defnyddio.

3.17 Yn seiliedig ar nifer o ffurflenni yr ydych yn debygol o'u hanfon allan, gallech hefyd adolygu eich cynnyrch a gostyngiadau postiadau mawr.



Rydym wedi cynhyrchu canllawiau [ar reoli contractwyr a chyflenwyr](#) ry'n rhoi mwy o wybodaeth ar brosesau caffael a rheoli perthnasau gyda chyflenwyr.

### Storio

3.18 Bydd angen i chi asesu eich gofynion storio tebygol o ganlyniad i ganfas 2015 - yn gorfforol ac yn electronig - i sicrhau fod gennych ddigonedd o le.

3.19 Yn benodol bydd angen i chi ystyried faint o wybodaeth ar bapur ac ar ffurf electronig yr ydych wedi derbyn, a faint o dystiolaeth ddogfennol yr ydych wedi derbyn lle nad oedd modd gwirio'r ymgeisydd, er mwyn nodi p'un a bod eich trefniadau presennol yn briodol. Dylech hefyd adolygu eich trefniadau ar gyfer dod o hyd i ddata pan ei fod yn barod i'w ddinistrio, yn ogystal ag unrhyw ofynion diogelwch i sicrhau bod data personol etholwyr yn cael ei gadw'n ddiogel. Wrth adolygu gofynion storio corfforol bydd angen i chi ystyried lefelau'r etholwyr sydd wedi dewis gwneud cais ar-lein yn hytrach na chyflwyno ffurflen bapur.

3.20 Bydd eich polisi cadw dogfennau yn eich helpu i ddangos eich bod yn cydymffurfio ag egwyddorion prosesu data personol, gan sicrhau ei bod yn cael ei brosesu mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw.

3.21 Dylai'ch polisi cadw data esbonio'r canlynol ar gyfer pob dogfen y byddwch yn ei derbyn ac yn ei dal:

- A yw'r ddogfen yn cynnwys data personol
- Y sail gryfeithiol dros gasglu unrhyw ddata personol (gweler 'Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu')
- eich cyfnod cadw
- eich rheswm dros y cyfnod cadw (y mae'n bosibl y bydd hyn yn gysylltiedig i ofyniad mewn cyfraith etholiadol, er enghraifft, mae'n rhaid dinistrio ffurflenni cyfeiriadau cartref yn etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig ar ôl 21 diwrnod)



Mae rhagor o arweiniad ar gadw dogfennau i'w gael yn [Rhan 4: 'Cynnal y gofrestr trwy gydol y flwyddyn'](#) ac [Adran 5 yn ein hadnodd ar Reoliad Dioglu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Diogelu Data 2018](#).

## Adolygu prosesau mewnol i sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd

3.22 Gan adeiladu ar eich profiadau yn ystod y canfas diwethaf dylech redeg drwy'r prosesau y bydd disgwyl i chi eu gwneud yn ystod canfas 2017, gan gynnwys anfon a derbyn Ffurflenni Ymholiad y Cartref, rhoi a derbyn Gwahoddiadau i Gofrestru, ac ymgymryd â gweithgarwch dilynol lle bo gofyn, gan gynnwys ymweliadau personol.



Rydym wedi cynhyrchu [taflen grynodedb ar anfon Ffurflenni Ymholiad y Cartref](#), ac ar [ysgrifennu at etholwyr newydd](#), y gallwch ddefnyddio i gyfeirio ato i nodi pa brosesau dilynol a mathau o ddogfennau sydd anegn eu hanfon a phryd.

3.23 Bydd rhedeg drwy eich prosesau yn caniatáu i chi brofi p'un a bod eich prosesau yn gweithio, i nodi beth ellir ei fireinio ymhellach ac amlygu unrhyw broblemau. Bydd hefyd yn eich galluogi i asesu, yn seiliedig ar yr amser a gymerir i ddelio gyda phost yn dod mewn ac allan, prosesu ceisiadau a mewnbynnu data, p'un a bod eich adnoddau'n ddigonol. Er enghraifft, gallai'r ymarfer ddangos bod angen mwy o staff arnoch, mwy o hyfforddiant, neu fwy o offer.

## Diogelwch data personol

3.24 Byddwch yn casglu data gan drigolion, gan gynnwys data personol megis dyddiad geni, cenedligrwydd a Rhif Yswiriant Gwladol.

3.25 Fel Swyddog Cofrestru Etholiadol, rydych yn rheolwr data ac mae gennych ddyletswydd statudol yn unol â Deddf Diogelu Data i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel. Gallai unrhyw achos o dorri'r rheolai fod yn drosedd a gallai olygu diffyg hydref yn y broses cofrestru etholiadol.

3.26 Mae angen i arferion trin data fod yn rhan o'ch prosesau busnes o ddydd i ddydd. Er enghraifft, bydd angen i chi adolygu sut yr ydych yn rheoli'r data a diogelwch data personol.

3.27 Bydd gan eich awdurdod lleol safonau a phrosesau corfforaethol ar gyfer trin a diogelwch data a dylech adolygu eich prosesau gyda chynghor gan eich Swyddfa Cydymffurfiaeth Data/Diogelu Data a TG ynghylch trin data yn effeithiol. Byddant yn gallu eich helpu i nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y data sydd gennych, ar ffurflenni papur neu'n electronig ar eich systemau. Bydd angen i chi sicrhau bod eich gweithdrefnau trin a threfniadau storio yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.



Mae canllawiau manylach ar ddeddfwriaeth diogelu data ar gael yn [ein hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Diogelu Data 2018.

3.28 Gallwch hefyd ddod o hyd i ganllawiau ar ddiogelu data ar [wefan y Comisiynydd Gwybodaeth](#), neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol.

**Yn Lloegr:**

The Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113  
Facs:01625 524510  
E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

**Yng Nghymru:**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru  
2il Lawr, Churchill House  
Churchill Way  
Caerdydd  
CF10 2HH  
Ffôn: 029 2067 8400  
E-bost: [wales@ico.gsi.gov.uk](mailto:wales@ico.gsi.gov.uk)

**Yn Yr Alban:**

Information Commissioner's Office – Scotland  
45 Melville Street  
Edinburgh  
EH3 7HL  
Ffôn: 0131 244 9001  
E-bost: [scotland@ico.gsi.gov.uk](mailto:scotland@ico.gsi.gov.uk)

3.29 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol/SOCITM hefyd wedi cynhyrchu [canllawiau](#) i awdurdodau lleol ar drin data (er dylid nodi bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rheolwr data sydd ar wahân wrth yr awdurdod lleol). Mae'n argymhell eich bod yn ystyried y ffactorau canlynol wrth ddatblygu eich ymdriniaeth o drin data, a gellir ystyried y rhain eto fel rhan o'ch adolygiad:

- Polisi: dylai polisiau cynhwysfawr (gan gynnwys parhâd busnes, a gweithio gartref a symudol) ffurfio'r drefn lywodrethu gwybodaeth. Dylid monitro'r polisiau a'u harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithlon.
- Pobl: gan gynnwys ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff, mynediad i ddefnyddwyr, a mecanweithiau ar gyfer rheoli risgiau gwybodaeth
- Llefydd: gan gynnwys asesiadau risg, diogelwch adeiladau, gwaredu ar wybodaeth a defnyddio cyfryngau symudol
- Prosesau: gan gynnwys pwy sydd â mynediad at y data, diogelwch systemau, trosglwyddo data, a phrosesau data cyflenwyr a chontractwyr
- Gweithdrefnau: gan gynnwys adrodd risgiau, archwilio gweithdrefnau, a pholisiau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu

**Adolygu anghenion hyfforddi, gan gynnwys ffynonellau hyfforddiant allanol a mewnol**

3.30 Dylech adolygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael o fewn y swyddfa cofrestru etholiadol a sicrhau bod pobl wedi'u hyfforddi'n briodol.

3.31 Dylai eich cynllun cofrestru gynnwys nodi anghenion hyfforddi staff parhaol a dros dro, gan gynnwys canfaswyr. Mae'n parhau i fod yn hanfodol bod pob aelod o'r tîm, yn barhaol neu dros dro yn deall eu rôl ac unrhyw rwymedigaethau statudol sy'n gysylltiedig â'r gwaith maent yn ei wneud. Dylai pob aelod o staff dderbyn hyfforddiant ar ofynion deddfwriaethol a chyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r rôl, yn ogystal â hyfforddiant i sicrhau bod pawb sy'n trin data personol yn ymwybodol o ac wedi'u hyfforddi ar sicrhau myndiad cyfartal, ar drin data a gofal da i gwsmeriaid.

3.32 Bydd angen ichi sicrhau bod pawb sy'n trin data personol yn ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer trin data personol yn unol â Deddf Diogelu Data ac wedi derbyn hyfforddiant ynddynt. Bydd hyfforddiant diogelu data yn eich helpu i wreiddio egwyddorion diogelu data yn eich gwaith a dangos cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data. Dylech chi drafod unrhyw hyfforddiant diogelu data gyda Swyddog Diogelu Data eich cyngor.

3.33 Dylech adolygu eich dadansoddiad o anghenion hyfforddi, ac ystyried a yw eich profiadau hyd yn hyn wedi amlygu unrhyw feysydd lle mae angen mwy o hyfforddiant ar eich staff. Yn yr un modd dylech adolygu a gwerthuso'r hyfforddiant yr ydych wedi'i ddarparu yn y gorffennol a mireinio'r sesiynau a deunyddiau hyfforddi i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer sesiynau'r dyfodol. Os oes gennych bersonél hyfforddi yn eich awdurdod lleol, efallai y gallent eich cynorthwyo gyda'r broses hon.

3.34 Dylai cyfeiriadau at hyfforddiant yn y cynllun ymgorffori ffynonellau allanol a mewnlol o hyfforddiant.



I gyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod gofynion hyfforddi'r gwahanol staff sy'n rhan o'r broses o ddarparu yn cael eu diwallu. I ddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth cynllunio prosiect gynnwys nodi anghenion hyfforddi a darparu unrhyw hyfforddiant gofynnol.



Mae mwy o ganllawiau ar recriwtio a hyfforddi staff yn [Rhan 3: Canfas](#).

### **Gweithredu eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd**

3.35 Dylai eich cynllun cofrestru gynnwys manylion am sut yr ydych yn mynd i roi eich strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ar waith h.y. sut byddwch yn rheoli cyswllt uniongyrchol â'r etholwyr, a sut yr ydych yn mynd i fonitro ei effeithiolrwydd. Dylech ddyrannu tasgau i unigolion, gosod terfynau amser penodol, a chael mecanwaith ar gyfer olrhain a gwerthuso cynnydd, fydd oll wedi'i ddangos yn eich cynllun. Er enghraifft dylech gynllunio i adolygu eich strategaeth cyn y canfas ac unwaith eto ar ôl iddo ddod i ben i gefnogi eich gweithgarwch parhaus i facsimeiddio cofrestru drwy'r flwyddyn.



I gyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi gynllunio gweithgareddau gyda'r partneriaid mewnol ac allanol yr ydych wedi eu nodi fel rhai fyddai'n ddefnyddiol i fodloni'r her yn yr ardal. Er mwyn arddangos sut yr ydych wedi bodloni'r canlyniadau, dylai eich dogfennaeth cynllunio gynnwys amserlen o ganlyniadau a thasgau ar gyfer gweithgarwch gydol y flwyddyn a manylion gweithgarwch partneriaeth yr ydych wedi ei gynllunio.

### **Sut y bydd y camau angenrheidiol o dan Adran 9A DCyB 1983 yn cael eu cynnal**

3.36 Dylech barhau i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau bod eich cofrestrau mor gywir a chyflawn â phosibl, gan gynnwys cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ ac ymweliadau personol a defnyddio'r data lleol sydd ar gael i nodi a thargedu etholwyr posibl ac i wirio a dilysu data sydd yn cael ei ddal ar eich cofrestr.

3.37 Dylid cynnwys manylion am sut yr ydych yn bwriadu cymryd y camau angenrheidiol o dan Adran 9A yn eich cynllun gweithredu.

3.38 Dylai eich cynllun hefyd ddal sut yr ydych yn mynd i nodi a dileu unrhyw etholwyr nad ydynt bellach yn gymwys i gael eu cofrestru. Dylech sicrhau eich bod yn gwneud defnydd llawn o'r holl gofnodion sydd ar gael i chi i wirio cofnodion ar y gofrestr, gan gymryd camau i gael gwared ar yr etholwyr hynny nad ydynt bellach â hawl i aros ar y gofrestr.



I gyflawni canlyniadau [safonau perfformiad 2](#), bydd angen i chi ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth i nodi etholwyr presennol efallai nad ydynt bellach yn gymwys a sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i dynnu'r etholwr o'r gofrestr. I arddangos sut mae'r canlyniadau wedi eu cyflawni, dylech gofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi eu tynnu o'r gofrestr a'r rheswm am eu tynnu.

Hefyd, bydd angen i chi ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i nodi a thargedu etholwyr newydd, a sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i'w hychwanegu i'r gofrestr. I arddangos sut mae'r canlyniadau wedi eu cyflawni, dylech gofnodi nifer yr etholwyr sydd wedi eu hychwanegu at y gofrestr ac o ble ddaeth y ceisiadau hyn. Er enghraifft, p'un a bod y cais yn ddigymell neu o wybodaeth a gynhwyswyd mewn Ffurflen Ymholiad y Cartref.

### **Prosesau i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch allai nodi problemau hygrededd posibl**

3.39 Bydd angen i chi gael cynlluniau a phrosesau yn eu lle i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch allai nodi problemau hygrededd posibl. Dylai eich cynlluniau gynnwys camau penodol i nodi unrhyw broblemau hygrededd posibl a gosod pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio â phroblemau o'r fath.



I gyflawni canlyniadau [safon perfformiad 1](#) bydd angen i chi ddatblygu a chynnal prosesau i nodi unrhyw batrymau o weithgarwch allai nodi problemau hygrededd posibl, gan gynnwys pa gamau i'w cymryd i ddelio gyda phroblemau o'r fath. I arddangos sut mae'r canlyniadau wedi'u bodloni, dylai eich dogfennaeth gynllunio fynd i'r afael â materion hygrededd posibl, sut byddent yn cael eu nodi a'r camau i'w cymryd ym mhob achos.



Mae canllawiau ar y prosesau i nodi patrymau gweithgarwch allai nodi problemau hygrededd posibl yn [Rhan 4: Cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn](#).